
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Goblygiadau ariannol Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Mawrth 2020



www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyllid**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Goblygiadau ariannol Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Mawrth 2020

www.cynulliad.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Llyr Gruffydd AC**
Plaid Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Alun Davies AC**
Llafur Cymru



**Siân Gwenllian AC**
Plaid Cymru



**Mike Hedges AC**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AC**
Llafur Cymru



**Nick Ramsay AC**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mark Reckless AC**
Plaid Brexit

Mynychodd yr Aelodau a ganlyn fel dirprwyon yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**David Melding AC**
Ceidwadwyr Cymreig



**Jenny Rathbone AC**
Llafur Cymru

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Rhun ap Iorwerth AC**
Plaid Cymru

# Cynnwys


**Argymhellion a chasgliad ........ 5**

**1. Cyflwyniad ........ 8**

**2. Goblygiadau ariannol y Bil ........ 10**

**3. Etholiadau a Phleidleisio ........ 18**

**4. Hyrwyddo Mynediad at Lywodraeth Leol ........ 33**

**5. Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol ........ 40**

**6. Pwyllgorau a pherfformiad ........ 44**

**7. Cydweithio ........ 52**

**8. Cyllid Llywodraeth Leol ........ 60**

**Mynd i'r afael ag osgoi talu ardrethi annomestig ........ 60**

**9. Adolygiad ar ôl gweithredu ........ 63**

**Atodiad A - Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar ........ 66**

# Argymhellion a chasgliad

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ddarparu Asesiadau o'r Effaith Rheoleiddiol ar gyfer unrhyw is-ddeddfwriaeth berthnasol a wneir o ganlyniad i'r Bil hwn. ................................ Tudalen 17

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith i nodi dosbarthiad yr etholwyr ledled Cymru ac yn egluro'r dull y mae'n bwriadu ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw gyllid a ddyrannir i gefnogi'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud ag etholiadau a phleidleisio. ................................ Tudalen 31

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i archwilio'r costau sy'n gysylltiedig ag awdurdod lleol sy'n penderfynu defnyddio'r system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy ac yn cynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol mewn Asesiad Effaith Rheoleiddio diwygiedig. ................................ Tudalen 31

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith i nodi'r costau sy'n gysylltiedig â sefydlu cronfa ddata Cymru gyfan o wybodaeth cofrestru etholiadol ac yn darparu cymaint o wybodaeth â phosibl mewn Asesiad Effaith Rheoleiddio diwygiedig. ...... Tudalen 31

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ddarparu Asesiad Effaith Rheoleiddio llawn a chadarn i gyd-fynd â'r is-ddeddfwriaeth berthnasol sy'n ofynnol er mwyn gweithredu cronfa ddata Cymru gyfan o wybodaeth cofrestru etholiadol................................ Tudalen 31

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am y mathau o gynlluniau y gallai fod am eu treialu a'r adnoddau posibl sy'n ofynnol ar gyfer gweithgaredd o'r fath. ................ Tudalen 31

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o arbedion tebygol darpariaethau sy'n gysylltiedig â threuliau Swyddogion Canlyniadau ac yn cynnwys unrhyw fanylion perthnasol mewn Asesiad Effaith Rheoleiddio diwygiedig. ................................ Tudalen 31

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio ymhellach yr arbedion tebygol o ddileu pleidleisiau cymunedol ac a yw'n rhesymol gosod unrhyw gostau system ddeisebau newydd yn erbyn y rhain. Dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. ........Tudalen 38

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn paratoi dadansoddiad sensitifrwydd o'r effaith y gall nifer y deisebau ei chael ar amser staff a chost monitro ac adolygu'r deisebau a dderbynnir. Dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig........Tudalen 39

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â rhagor o waith gyda rhanddeiliaid i ystyried a yw contract darlledu Cymru gyfan yn ymarferol ac ai hwn fyddai'r ateb mwyaf cost-effeithiol, gan gynnwys costau posibl i awdurdodau lleol gaffael contractau darlledu unigol. ........Tudalen 39

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei chanllawiau (neu hyd yn oed canllawiau drafft) ar ddarlledu cyfarfodydd, gan gynnwys lle efallai na fyddai'n briodol darlledu, cyn gynted â phosibl........Tudalen 39

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion goblygiadau cost unrhyw reoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cymwys baratoi achos busnes cyn defnyddio pŵer cymhwysedd cyffredinol........Tudalen 42

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ailasesu'r costau sy'n gysylltiedig â chynlluniau hyfforddi Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref, gan gynnwys yr hyfforddiant ychwanegol y gellir ei ddilyn o ganlyniad i'r cynlluniau hynny, ac yn sicrhau bod y goblygiadau ariannol wedi'u nodi mewn Asesiad Effaith Rheoleiddio diwygiedig. ........Tudalen 50

**Argymhelliad 14.** . Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddeall pa mor sylweddol fydd y newid yn y trefniadau perfformiad i brif awdurdodau unigol. ........Tudalen 51

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, pe bai Gweinidogion Cymru'n defnyddio'r pŵer galluogi i ysgogi uno gwirfoddol, y dylid cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddio llawn a chadarn i gyd-fynd ag unrhyw is-ddeddfwriaeth.....Tudalen 59

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhannu ei ddadansoddiad o gostau a buddion sefydlu cyd-bwyllgorau corfforaethol pan fydd ei hadolygiad yn dod i ben. Os yw'n berthnasol, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid cyfrif am y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddio diwygiedig.......Tudalen 59

**Argymhelliad 17.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Asesiad Effaith Rheoleiddio llawn a chadarn yn cyd-fynd â rheoliadau sy'n cael eu gwneud i sefydlu cyd-bwyllgorau corfforaethol. .......Tudalen 59

**Argymhelliad 18.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad ar yr adolygiad o refeniw ardrethi annomestig sy'n cael ei golli bob blwyddyn, pan fydd y darpariaethau newydd, sydd â'r nod o leihau cyfleoedd ar gyfer ymddygiad osgoi, mewn grym.......Tudalen 62

**Argymhelliad 19.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn dadansoddi ei strategaeth adolygu ôl-weithredu, gan roi ystyriaeth i adnoddau'r gweithgareddau y mae'n bwriadu eu cynnal ac yn cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddio diwygiedig. .......Tudalen 65

**Casgliad 1.** Cred y Pwyllgor y gallai'r darpariaethau i ymestyn yr etholfraint i garcharorion a phobl ifanc yn y ddalfa fod wedi bod yn fwy datblygedig cyn cyflwyno'r Bil. Mae'r arfer o gyflwyno Biliau gyda'r bwriad o wneud newidiadau sylweddol yn nes ymlaen trwy ddiwygio Bil yn osgoi craffu, mae hyn yn anfoddhaol ac ni ddylai barhau. .......Tudalen 17

# 1. Cyflwyniad

**1.** Cafodd Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (y Bil) a'r Memorandwm Esboniadol, gan gynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol, eu cyflwyno gan Julie James AC, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) ar 18 Tachwedd 2019.

**2.** Gwnaeth y Gweinidog ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Tachwedd 2019 i gyflwyno'r Bil.

**3.** Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth ar gyfer:

- diwygio trefniadau etholiadol ar gyfer llywodraeth leol, gan gynnwys:
  - ymestyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 ac 17 oed, a dinasyddion tramor sy'n preswylio'n gyfreithiol yng Nghymru;
  - newidiadau o ran cofrestru pleidleiswyr, a
  - caniatáu i brif gyngor[1] ddewis rhwng y systemau pleidleisio 'cyntaf i'r felin' neu'r 'bleidlais sengl drosglwyddadwy';
- pŵer cymhwysedd cyffredinol ar gyfer prif gynghorau a chynghorau cymunedol cymwys;
- diwygio cyfranogiad y cyhoedd mewn democratiaeth leol;
- arweinyddiaeth prif gynghorau, gan gynnwys annog mwy o amrywiaeth ymhlith aelodau gweithredol a phennu swydd statudol prif weithredwr;
- datblygu fframwaith a phwerau i hwyluso dulliau gweithio rhanbarthol mwy cyson a chydlynol;

[1] Mae adran 167 (1) o'r Bil yn diffinio prif gyngor fel cyngor ar gyfer sir yng Nghymru neu gyngor ar gyfer bwrdeistref sirol (yng Nghymru)

- system newydd ar gyfer perfformiad a llywodraethu yn seiliedig ar hunanasesu ac adolygu cymheiriaid, gan gynnwys cydgrynhoi pwerau cymorth ac ymyrraeth Gweinidogion Cymru;
- pwerau i hwyluso uno gwirfoddol gan brif gynghorau ac ailstrwythuro prif ardal;
- cyllid llywodraeth leol, gan gynnwys ardrethi annomestig a'r dreth gyngor;
- darpariaethau amrywiol yn ymwneud â rhannu gwybodaeth rhwng rheoleiddwyr, arolygon cymunedol, awdurdodau tân ac achub, Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Lleol Cymru a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.[2]

**4.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y Bil yn darparu ar gyfer:

> "Sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer llywodraeth leol mewn perthynas ag etholiadau, democratiaeth, perfformiad a llywodraethu."[3]

**5.** Derbyniodd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) dystiolaeth ar oblygiadau ariannol y Bil gan:

- Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) (29 Ionawr 2020);
- Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (6 Chwefror 2020).

**6.** Derbyniodd y pwyllgor hefyd dystiolaeth ysgrifenedig gan y Comisiwn Etholiadol.

**7.** Gwnaeth y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ymgymryd â'r gwaith o graffu ar bolisiau'r Bil.

[2] Memorandwm Esboniadol, tudalen 5

[3] Memorandwm Esboniadol, tudalen 5

# 2. Goblygiadau ariannol y Bil

## Crynodeb Ariannol

**8.** Cost weinyddol net y Bil, a ystyriwyd dros y cyfnod gwerthuso deng mlynedd (2020-21 i 2029-30), yw £17.2 miliwn[4]. Mae hyn yn cynnwys:

- costau rheolaidd gwerth £13.3 miliwn;
- costau pontio gwerth £3.9 miliwn;
- arbedion gwerth £72,000.[5]

**9.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn disgrifio llawer o'r costau gweinyddol i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol fel "costau cyfle", sy'n ymwneud â defnyddio adnoddau staff i roi'r Bil ar waith.[6]

**10.** Mae'r Bil hefyd yn cynnwys nifer o feysydd na chostiwyd, naill ai ar y sail eu bod yn ymwneud ag is-ddeddfwriaeth neu nad yw'r defnydd o'r pŵer yn hysbys. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn feirniadol o'r dull hwn yn y gorffennol, a nodwyd yng nghasgliad 6 yn ei adroddiad ar oblygiadau ariannol y Bil Senedd ac Etholiadau[7] (Bil y Senedd):

> *"Mae'n siomedig y cyflwynwyd Bil Comisiwn sy'n cynnwys darpariaethau is-ddeddfwriaeth nad oes modd eu costio'n llawn a bod yn destun gwaith craffu, yn enwedig gan fod Pwyllgorau'r Cynulliad wedi beirniadu'r dull gweithredu hwn o'r blaen."*[8]

## Diwygiadau Cam 2 arfaethedig

**11.** Wrth gyflwyno'r Bil yn y Cyfarfod Llawn, amlinellodd y Gweinidog ei bwriad i ddiwygio'r Bil yn ddiweddarach i ymestyn yr etholfraint i garcharorion a phobl

[4] Memorandwm Esboniadol, tudalen 117

[5] Memorandwm Esboniadol, tudalen 117

[6] Memorandwm Esboniadol, tudalen 116

[7] Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

[8] Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Goblygiadau Ariannol y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

ifanc yn y ddalfa. Esboniodd y Gweinidog y byddai'r ddarpariaeth hon yn berthnasol i bobl sy'n bwrw dedfryd o garchar o lai na phedair blynedd a'i bod yn bwriadu i'r darpariaethau gael eu rhoi ar waith mewn pryd ar gyfer etholiadau 2022.[9] Dywedodd "Yn syml iawn, ni fu digon o amser i Lywodraeth y DU, Gwasanaeth Carchardai EM a swyddogion cofrestru etholiadol weithio drwy hyn a phrofi'r holl ofynion cyfreithiol a gweinyddol newydd" i'r darpariaethau fod wedi bod yn barod i'w cyflwyno.[10]

**12.** Nododd y Gweinidog, pan gyflwynwyd Bil y Senedd, bod y Llywydd[11] wedi gofyn i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i ymgymryd ag ymchwiliad i hawliau pleidleisio i garcharorion. Amlinellodd y Gweinidog ei bod wedi ymrwymo i beidio â rhoi newidiadau ar waith nes ei bod yn deall beth oedd canlyniad yr ymchwiliad. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud y byddai'r darpariaethau'n adlewyrchu'r hyn a nododd y Pwyllgor yn ei adroddiad fel y canlyniad gorau a bod Llywodraeth Cymru yn cadw at argymhellion y Pwyllgor.[12]

**13.** O ran goblygiadau ariannol, dywedodd y Gweinidog na fyddai effaith y newid hwn yn cael gormod o effaith ar yr etholfraint ac y byddai'n cydweithredu gyda'r Pwyllgor i ddarparu'r wybodaeth orau sydd ar gael.[13]

**14.** Yn dilyn hynny, ar 24 Chwefror 2020, ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor a darparu diwygiadau drafft Cyfnod 2 yn ymwneud ag ymestyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau llywodraeth leol i rai carcharorion a phobl ifanc yn y ddalfa.[14]

**15.** Cafwyd rhagor o wybodaeth gan y Gweinidog ar 2 Mawrth 2020, a oedd yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth ariannol. Nododd y llythyr:

---

[9] Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 19 Tachwedd 2019, paragraff 187

[10] Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 19 Tachwedd 2019, paragraff 188

[11] Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil;

[12] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 10

[13] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 12

[14] Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, 24 Chwefror 2020

> "Nid yw'r costau sy'n gysylltiedig â gwelliannau cyfnod 2 fel arfer yn cael eu darparu tan ar ôl pasio'r gwelliant, ond dan amodau eithriadol a heb osod unrhyw gynsail, mae'r wybodaeth ar gael isod."[15]

**16.** Mae'r llythyr yn nodi y bydd y bwriad i etholfreinio rhai carcharorion a phobl ifanc yn y ddalfa yn ychwanegu tua 1,900 o etholwyr i'r gofrestr etholiadol am gost o oddeutu £2,300 fel cyfanswm ledled Cymru (yn seiliedig ar £1.22 fesul etholwr). Byddai'r costau gweinyddol o alluogi carcharorion a phobl ifanc cymwys i bleidleisio ym mis Mai 2022 tua £4,300 fel cyfanswm ledled Cymru (£2.23 fesul etholwr).[16]

**17.** Mewn llythyr at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, nododd y Gweinidog hefyd newidiadau eraill y gellir eu cyflwyno trwy welliannau yn ymwneud â threfniadau llywodraethu gweithredol.[17]

**18.** Dywedodd y Gweinidog fod y rhain yn canolbwyntio'n bennaf ar etholiadau maer, yr oedd hi'n eu hystyried yn fesur cywirol[18]. Dywedodd un o swyddogion y Gweinidog:

> "It's a timing issue, because potentially, if you elected a full council in the May, then under legislation, you'd have to elect a leader and there'd have to be a cabinet, and then you could have the election for the mayor several months later, who would then come in, and then it would all change, so it's quite potentially disruptive for the authority. And costly, for two elections."[19]

---

[15] Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, 2 Mawrth 2020

[16] Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, 2 Mawrth 2020

[17] Llythyr gan y Gweinidog at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Cyllid, 5 Rhagfyr 2019

[18] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 15

[19] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 34

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid.

**19.** Yn natganiad y Gweinidog yn y Cyfarfod Llawn wrth gyflwyno'r Bil, soniodd hi am yr ymgynghori helaeth yr oedd darpariaethau'r Bil wedi bod yn destun iddo.[20]

**20.** Cytunodd CLlLC y bu ymgysylltu da[21] a bod pob un o'r pedwar arweinydd grŵp gwleidyddol CLlLC wedi bod yn rhan o bob agwedd ar y Bil.[22] Aethon nhw ymlaen i ddweud:

> "…we know that there's good engagement going on—as there has been in the past—with various workshops, through some established groups like the revenues and benefits group, for example, and we're looking at anti-avoidance in terms of non-domestic rates. There's an ongoing conversation there. So, if something hasn't been costed up, we'd expect to see it costed up in the future, with our help. And then the question remains: does it get funded?"[23]

**21.** Nododd CLlLC hefyd fod rhai o'r costiadau wedi'u profi, ond bod eraill heb eu profi, o bosibl, ond aethon nhw ymlaen i ddweud bod elfennau mwy costus y Bil wedi'u profi gan Fwrdd Cydlynu Etholiadau Cymru[24], sy'n cynnwys swyddogion canlyniadau, gweinyddwyr etholiadol a'r Comisiwn Etholiadol.[25]

**22.** Awgrymodd CLlLC fod yr heriau ariannol i awdurdodau lleol yn parhau[26] ac y byddent yn parhau i'r dyfodol. Nododd CLlLC:

> "…it's a really tall order to solve the problems caused by austerity through legislation, as opposed to funding, but this will help us, I think, to become more efficient and better at dealing with the implications of increasing demand and decreasing resources. So, to that extent, I

[20] Cofnod y Trafodion, 19 Tachwedd 2019, paragraff 175

[21] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2020, paragraff 22

[22] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2020, paragraff 22

[23] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2020, paragraff 13

[24] Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru

[25] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2020, paragraff 27

[26] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2020, paragraff 7

think it's a welcome part of the solution, if not the solution as a whole."[27]

**23.** Pwysleisiodd CLlLC y dylai Llywodraeth Cymru ariannu'n llawn unrhyw fentrau cenedlaethol newydd neu oblygiadau unrhyw ddeddfwriaeth ar awdurdodau lleol[28], a'u bod yn llai pryderus am y costau heb eu costio yn y Bil ac yn pryderu mwy a fyddan nhw'n cael eu hariannu pan fyddan nhw'n cael eu meintioli yn y pen draw.[29]

**24.** Cytunodd y Gweinidog fod yr heriau ariannol i lywodraeth leol yn sicr yn dal i fod yno, ond tynnodd sylw hefyd at y ffaith taw setliad llywodraeth leol 2020-21 oedd y setliad gorau ers tua naw mlynedd.[30]

**25.** Dywedodd y Gweinidog fod pwyslais y Bil wedi newid o ddiwygio strwythurol i wella llywodraethu, perfformiad a rhannu arfer da. Awgrymodd y Gweinidog y byddai'n cymryd amser, yn dilyn ailstrwythuro, i arfer da arloesol ddod yn ôl allan eto[31]. Awgrymodd hefyd, er nad arbedion ariannol oedd pwyslais y Bil, y byddai'n synnu'n fawr pe na bai arbedion i awdurdodau lleol o ganlyniad.[32]

## Barn y Pwyllgor

**26.** Mae'r Pwyllgor yn falch o glywed y bu ymgysylltiad da rhwng Llywodraeth Cymru a CLlLC a bod yr ymgysylltiad hwn yn parhau wrth i'r Bil fynd yn ei flaen. Roedd tystiolaeth gan CLlLC yn awgrymu ei fod yn gyfforddus â'r dull a ddefnyddir i ddatblygu'r Bil. Mae'r Pwyllgor yn nodi ymgysylltiad rhanddeiliaid a grwpiau arbenigol, er enghraifft, bod rhai o elfennau mwy costus y Bil wedi'u hystyried gan Fwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru.

**27.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y bydd awdurdodau lleol yn derbyn setliad ariannol gwell ar gyfer 2020-21, sydd wedi'i groesawu gan CLlLC. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi barn y Gweinidog y gallai'r Bil hwn arwain at arbedion i

---

[27] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2020, paragraff 5

[28] Y Pwyllgor Cyllid: Papur 2 Tystiolaeth ysgrifenedig gan CLlLC

[29] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2020, paragraff 9

[30] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 4

[31] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 4

[32] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 6

awdurdodau lleol, er nad dyma brif fwriad y ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae'r Bil hwn yn cynrychioli newid sylweddol i lywodraeth leol ac mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai'r Bil fynd ymhellach i gynorthwyo a galluogi llywodraeth leol i reoli'r heriau ariannol y mae'n eu hwynebu.

**28.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod y Bil yn cynnwys nifer o bwerau galluogi ar gyfer Gweinidogion Cymru a allai gael eu cyflwyno trwy is-ddeddfwriaeth. Mae'r Pwyllgor wedi codi ar nifer o achlysuron y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys amcangyfrif gorau o'r costau sy'n gysylltiedig ag is-ddeddfwriaeth ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol. Yn adroddiad y Pwyllgor ar ei Ymchwiliad i'r amcangyfrifon ariannol sy'n mynd gyda deddfwriaeth, roedd argymhelliad 13 yn nodi:

> *"Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ddarparu darlun mor llawn â phosibl o gostau is-ddeddfwriaeth wrth gynnig deddfwriaeth sylfaenol."*[33]

**29.** Roedd ymateb Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn, gan nodi:

> "Mae'r canllawiau diwygiedig yn y Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Cynulliad eisoes yn egluro y dylai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil gynnwys gwybodaeth am gostau a manteision unrhyw is-ddeddfwriaeth gysylltiedig, cyn belled ag y mae hynny'n ymarferol bosibl."[34]

**30.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod y Gweinidog wedi cyhoeddi, wrth gyflwyno'r Bil, ei bwriad i gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ymestyn yr etholfraint i garcharorion a phobl ifanc yn y ddalfa ac i drefniadau llywodraethu gweithredol. Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi bod y Gweinidog wedi rhannu'r gwelliannau drafft a rhywfaint o wybodaeth ariannol o ran hawliau pleidleisio carcharorion. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn siomedig bod sylwadau'r gweinidog yn nodi na ddarperir y costau sy'n gysylltiedig â diwygiadau Cyfnod 2 fel arfer tan ar ôl i'r

---

[33] Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Ymchwiliad i amcangyfrifon ariannol sy'n mynd gyda deddfwriaeth

[34] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, 19 Rhagfyr 2017

diwygiad gael ei basio, ond ei bod wedi darparu'r wybodaeth hon ar sail eithriadol heb osod unrhyw gynsail[35].

**31.** Er bod y Pwyllgor yn cydnabod nad yw'r costau sy'n gysylltiedig â diwygiadau fel arfer yn cael eu darparu cyn cyfnodau diwygio Bil, ar yr achlysur hwn, cyhoeddwyd y newidiadau arfaethedig ar adeg eu cyflwyno ac felly dylid disgwyl y byddai craffu ar y cynigion a'r costau cysylltiedig yn rhan o waith craffu Cyfnod 1. Yn ogystal, ni fyddai'r Pwyllgor yn disgwyl i'r Aelod sy'n gyfrifol am unrhyw Fil ddefnyddio'r cyfnodau diwygio i gyflwyno cynigion polisi newydd, helaeth, nad ydynt wedi bod yn destun gwaith craffu Cyfnod 1.

**32.** O gofio bod y costau sy'n gysylltiedig ag ymestyn yr etholfraint i garcharorion a phobl ifanc yn y ddalfa wedi'u darparu lai na phythefnos cyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad Cyfnod 1, nid yw'r Pwyllgor wedi gallu nodi sylwadau ar gostau'r darpariaethau hynny. Er ei fod yn nodi bod y cyfrifiadau'n defnyddio'r ffigurau a briodolir i'r etholwyr cyffredinol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol nid yw'r Pwyllgor wedi'i argyhoeddi'n llwyr y byddai'r gost o gofrestru carcharorion a hwythau'n pleidleisio yr un fath yn union â'r etholwyr cyffredinol.

**33.** Mae'r Pwyllgor wedi bod yn feirniadol o ddulliau tebyg yn y gorffennol, fel yr un gan Gomisiwn y Cynulliad wrth basio Bil y Senedd, o ran trefniadau goruchwylio ariannol y Comisiwn Etholiadol. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Biliau, wrth gael eu cyflwyno, fod mor gyflawn â phosibl a chynnwys yr holl wybodaeth ariannol berthnasol.

**34.** Mae'r Pwyllgor yn ail-adrodd ei farn bod mewnosod darpariaethau newydd drwy ddiwygiadau yng Nghyfnod 2 yn lleihau gallu'r Pwyllgor i ystyried costau cyffredinol y ddeddfwriaeth arfaethedig, yn enwedig gan fod y cyfle i graffu'n ariannol ar y newidiadau hyn yn fwy cyfyngedig. Gofynnir i'r Cynulliad gymeradwyo penderfyniad ariannol cyn trafodion Cyfnod 2 ac mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn hanfodol bod gan y Cynulliad y wybodaeth ariannol berthnasol i sicrhau ei fod yn gallu gwneud penderfyniad cytbwys o ran ymrwymo adnoddau. Efallai y bydd y Pwyllgor yn ystyried cymryd rhagor o dystiolaeth gan y

---

[35] Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, 2 Mawrth 2020

Gweinidog ar oblygiadau ariannol ymestyn yr etholfraint i garcharorion a phobl ifanc yn y ddalfa, unwaith y bydd gwelliannau wedi'u cyflwyno.

**Casgliad 1.** Cred y Pwyllgor y gallai'r darpariaethau i ymestyn yr etholfraint i garcharorion a phobl ifanc yn y ddalfa fod wedi bod yn fwy datblygedig cyn cyflwyno'r Bil. Mae'r arfer o gyflwyno Biliau gyda'r bwriad o wneud newidiadau sylweddol yn nes ymlaen trwy ddiwygio Bil yn osgoi craffu, mae hyn yn anfoddhaol ac ni ddylai barhau.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ddarparu Asesiadau o'r Effaith Rheoleiddiol ar gyfer unrhyw is-ddeddfwriaeth berthnasol a wneir o ganlyniad i'r Bil hwn.

# 3. Etholiadau a Phleidleisio

## Cofrestru pobl ifanc 16 a 17 oed a dinasyddion tramor

**35.** Mae'r Bil yn darparu ar gyfer ymestyn etholfraint llywodraeth leol i bobl ifanc 16 ac 17 oed ac i ddinasyddion gwledydd eraill, sy'n preswylio'n gyfreithlon yng Nghymru. Mae'r Bil yn defnyddio cost gweinyddiaeth etholiadol yn Great Britain: Financial information surveys 2009-10 and 2010-11[36], i amcangyfrif cost cofrestru i bob etholwr.[37]

**36.** Gan ddefnyddio data o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol[38], mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif, ar ddiwedd 2017, bod 33,000 o ddinasyddion tramor cyfreithlon nad oedd yn ddinasyddion y Gymanwlad, Gweriniaeth Iwerddon na'r UE yn byw yng Nghymru.[39]

**37.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif bod cyfanswm y gost flynyddol i lywodraeth leol o gofrestru'r etholwyr ychwanegol – dinasyddion tramor sy'n preswylio'n gyfreithlon yng Nghymru - yn £40,000 y flwyddyn.[40] Amcangyfrifir y bydd cost uwch yr holl unigolion sydd newydd eu hetholfreinio sy'n pleidleisio (pobl ifanc 16 a 17 oed a dinasyddion tramor) yn £227,000, ar y cyfan, fesul etholiad.[41]

**38.** Roedd dibyniaeth rhwng y Bil hwn a Bil y Senedd, o ran cofrestru pobl ifanc 16 a 17 oed. Yn ôl yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

> "Yn amodol ar y ffaith y bydd Bil y Senedd yn cael Cydsyniad Brenhinol yn unol â'r amserlen ddisgwyliedig, ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i lywodraeth leol o ganlyniad i'r Bil hwn, gan y byddai'r broses o gofrestru pobl ifanc 16 ac 17 oed sydd newydd gael eu

---

[36] Cost of electoral administration in Great Britain: Financial information surveys 2009-10 and 2010-11 (Saesneg yn unig)

[37] Memorandwm Esboniadol, tudalen 126

[38] Swyddfa Ystadegau Gwladol

[39] Memorandwm Esboniadol, tudalen 127

[40] Memorandwm Esboniadol, tudalen 127

[41] Memorandwm Esboniadol, tudalen 129

> hetholfreinio yn cael ei chwblhau yn unol â darpariaethau Bil y Senedd."[42]

**39.** Cafodd Bil y Senedd Gydsyniad Brenhinol ar 15 Ionawr 2020.

**40.** Ym mis Rhagfyr 2019, ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, gan nodi y byddai Llywodraeth Cymru yn sicrhau y byddai o leiaf £1 miliwn ar gael ym mlwyddyn ariannol 2020/21 i gefnogi timau gweinyddiaeth etholiadol i gofrestru etholwyr newydd a hyrwyddo'r hawl i bleidleisio i'r etholfraint estynedig.[43]

**41.** Croesawodd CLlLC ymrwymiad y Gweinidog o £1 miliwn ym mlwyddyn ariannol 2020/21 a dywedodd ei fod yn adlewyrchiad teg o'r gost.[44]

**42.** Dywedodd y Gweinidog y byddai gan bob awdurdod lleol yr un gost, beth bynnag yw maint yr etholaeth, ar gyfer rhai o'r cynigion, fel newid y systemau cofrestru etholiadol. Fodd bynnag, cydnabu y byddai costau uwch i awdurdodau lleol sydd ag etholaethau mwy, megis argraffu papurau pleidleisio a dywedodd y byddai yn sicrhau bod y setliad yn adlewyrchu'r gost i'r awdurdod lleol.[45]

**43.** Yn dilyn hynny, fe wnaeth y Gweinidog gyhoeddi *Grant Cymorth Diwygio Etholiadol* gwerth £100,000 a fyddai ar gael i holl dimau Gwasanaethau Etholiadol yr awdurdodau lleol dros ddwy flynedd[46].

**44.** Holodd y Pwyllgor y Gweinidog ynghylch barn awdurdodau lleol ynglŷn â'r cyllid hwn ac a oedd yn ddigonol i dalu eu costau, dywedodd hi:

> "I think they're welcoming the additional money …, we'll work with them as we know where the electorate falls to make sure that there aren't any disproportionate costs falling on any large authorities, or authorities disproportionately affected by any of this."[47]

---

[42] Memorandwm Esboniadol, tudalennau 127-128

[43] Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, 19 Rhagfyr 2019

[44] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2020, paragraff 46

[45] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 19

[46] Datganiad Ysgrifenedig: Lansio Grant Cefnogi Diwygio Etholiadol, 3 Chwefror 2020

[47] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 37

## Annog pobl leol i gymryd rhan mewn llywodraeth leol

**45.** O dan y Bil, bydd yn ofynnol hefyd i brif gynghorau hyrwyddo ymwybyddiaeth o drefniadau etholiadol ymhlith pobl ifanc. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi tybio y bydd prif gynghorau yn dyrannu 50 y cant o swyddog ar radd 43 (£30,000, gan gynnwys costau) i gyflawni'r gweithgaredd hwn a £10,000 ar gyfer digwyddiadau a deunyddiau (i'w talu yn ystod y ddwy flynedd gyntaf ar ôl i'r Bil gael ei basio).[48]

**46.** Rhan o swyddogaeth y Comisiwn Etholiadol yw cynnal gweithgareddau codi ymwybyddiaeth, gan gynnwys ymgyrchoedd sy'n ystyried grwpiau anoddach eu cyrraedd. Er mwyn darparu costau sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd hwn, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn defnyddio tystiolaeth a ddarparwyd i'r Panel Arbenigol ar Ddiwygio'r Cynulliad gan y Comisiwn Etholiadol[49]. Nododd y dystiolaeth hon fod £120,000 wedi'i wario yn yr Alban ar weithgareddau codi ymwybyddiaeth a oedd yn canolbwyntio ar bleidleiswyr iau sydd newydd eu hetholfreinio. Mae hyn wedi'i uwchraddio ar gyfer pleidleiswyr iau sydd newydd eu hetholfreinio a dinasyddion tramor sydd wedi'u hetholfreinio, amcangyfrifir mai cyfanswm y gost yw £112,000.[50]

**47.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y byddai angen adolygu a diwygio canllawiau'r Comisiwn Etholiadol, ond nid yw'n cynnwys costau ar gyfer hyn, gan awgrymu y byddai'n cael ei gynnal yn rhan o'r adolygiad safonol o'r deunydd hwnnw. Fodd bynnag, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y byddai'n ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol ail-ddylunio a phrofi ffurflenni gwahoddiad i bleidleisio newydd (yn ogystal â mân newidiadau posibl i ffurflenni eraill) am gost o £75,000.[51]

**48.** Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i "annog amrywiaeth ehangach o aelodau o'r cyhoedd i gymryd rhan mewn democratiaeth leol" ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau ddatblygu eu gweithgaredd ymgysylltu â'r

---

[48] Memorandwm Esboniadol, tudalen 130

[49] Panel Arbenigol ar Ddiwygio'r Cynulliad gan y Comisiwn Etholiadol

[50] Memorandwm Esboniadol, tudalen 131

[51] Memorandwm Esboniadol, tudalen 133

cyhoedd ac yn gosod dyletswydd arnynt i gynhyrchu Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd.[52]

**49.** Yn rhan o hyn, byddai Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £7,000 o gostau sefydlu canllawiau ar gyfer strategaethau cyfranogiad y cyhoedd (yn 2021-22).[53]

**50.** Bydd yn ofynnol i brif gynghorau "fynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo delfrydau democratiaeth a chyfranogiad y cyhoedd" yn eu hardaloedd.[54] Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi tybio y byddai dau brif swyddog (25 diwrnod yr un) yn cael eu henwebu i weithio gyda chydweithwyr ac, o bosibl gydag aelodau o'r cyhoedd, i annog cyfranogiad y cyhoedd ar gost o £254,000 i'r holl brif gynghorau.[55]

**51.** Mewn datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 3 Chwefror 2020, amlinellodd y Gweinidog ei bod hi a'r Gweinidog Addysg wedi addo £800,000 i gynorthwyo pleidleiswyr newydd a phresennol i ddeall eu hawliau democrataidd ac ymgysylltu â'r prosesau democrataidd.[56]

**52.** Dywedodd y Comisiwn Etholiadol fod yr adnoddau sydd wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol mwy neu lai yn gywir,[57] ond awgrymodd, yn ychwanegol at ei wariant arferol ar godi ymwybyddiaeth, ei fod yn rhagweld gwariant rhwng £100,000 a £150,000 ar ymgyrchoedd cofrestru pleidleiswyr yn 2021 a 2022, yn benodol ar gyfer gohebiaeth newid etholfraint.[58]

**53.** Pan ofynnwyd iddi am y cyfrifiadau ar gyfer cost codi ymwybyddiaeth ar draws awdurdodau lleol, dywedodd y Gweinidog nad oedd hi'n disgwyl iddo fod yn anwastad, heblaw am ar gyfer gwladolion tramor, gan fod y rhan fwyaf o'r

---

[52] Memorandwm Esboniadol, tudalen 27

[53] Memorandwm Esboniadol, tudalen 162

[54] Memorandwm Esboniadol, tudalen 163

[55] Memorandwm Esboniadol, tudalen 163

[56] Datganiad Ysgrifenedig: Lansio Grant Cefnogi Diwygio Etholiadol, 3 Chwefror 2020

[57] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2020, paragraff 20

[58] Y Pwyllgor Cyllid: Tystiolaeth Ysgrifenedig y Comisiwn Etholiadol

newidiadau yn digwydd yn unffurf ledled Cymru oherwydd eu bod yn weinyddol.[59]

**54.** Darparodd y Gweinidog mwy o fanylion am gynlluniau codi ymwybyddiaeth:

> "A section for the 16 and 17-year-olds, which is being done via the curriculum in schools and FE colleges … because it's more of a captive audience. … we know where they are and it's easy to reach them. For the population in general, obviously that's much more difficult, and so we'll be collaborating with the Commission about how to do a general awareness-raising exercise about the electoral arrangements for both the Senedd changes in franchise and then the mirrored changes in the franchise for local government immediately afterwards."[60]

**55.** Nododd CLlLC eu cefnogaeth i uchelgeisiau Llywodraeth Cymru o ran hyrwyddo mynediad at lywodraeth leol.[61] O ran costau'r elfen hon o'r Bil, nododd CLlLC fod y rhain yn ymddangos yn gymesur a'r amcangyfrifon yn ymddangos yn rhesymol.[62]

**56.** Fodd bynnag, nododd CLlLC hefyd fod gofyniad yn bodoli i gynnwys y cyhoedd trwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a dywedodd nad oedd yn glir pa werth ychwanegol y byddai "dyletswydd cyfranogiad y cyhoedd" newydd ar awdurdodau lleol yn ei gyflawni.[63]

**57.** Yn yr un modd ag agweddau ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n ymwneud ag etholiadau a phleidleisio, mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio dull cyffredinol o amcangyfrif y costau i awdurdodau lleol ar ddyletswydd cyfranogiad y cyhoedd ac nid yw'r rhain wedi'u manylu ar sail unigol. Awgrymodd y Gweinidog:

---

[59] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 44

[60] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 47

[61] Y Pwyllgor Cyllid: Papur 2 Tystiolaeth ysgrifenedig gan CLlLC

[62] Y Pwyllgor Cyllid: Papur 2 Tystiolaeth ysgrifenedig gan CLlLC

[63] Y Pwyllgor Cyllid: Papur 2 Tystiolaeth ysgrifenedig gan CLlLC

> "We expect local authorities to take a similar approach to meeting this duty regardless of their size, and we expect them to share knowledge, expertise, materials and experiences across Wales in order to do this. … We don't think size matters… we think that a small authority might have just as many expenses in putting their scheme together as a larger authority, because you'd still want to reach all the groups in that authority, regardless of the size."[64]

**58.** Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud y bydden nhw'n hapus i edrych ar hynny os bydd yn llawer iawn drutach mewn un awdurdod penodol. Ond, nid ydyn nhw yn rhagweld hynny.[65]

## Caniatáu i brif gynghorau ddewis rhwng dwy system bleidleisio

**59.** Mae'r Bil yn rhoi'r gallu i brif gynghorau unigol ddewis rhwng systemau pleidleisio Y Cyntaf i'r Felin a'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar gyfer etholiadau llywodraeth leol.[66]

**60.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi pe byddai prif gyngor yn dewis newid ei system bleidleisio, y byddai costau ychwanegol. Fodd bynnag, mae'n nodi nad "yw'r costau hyn yn hysbys ar hyn o bryd".[67]

**61.** Dywedodd CLlLC fod gan wahanol bleidiau gwleidyddol farn wahanol ynghylch y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy ac ar hyn o bryd does dim cefnogaeth i'r opsiwn hwnnw mewn etholiadau lleol wrth symud ymlaen. O'r herwydd, dywedodd CLlLC nad oedd wedi cyfrifo unrhyw gostiadau o'r hyn y gallai'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy ei gostio pe bai awdurdod yn penderfynu defnyddio'r system hwn.[68]

**62.** Ychwanegodd CLlLC, pe byddai awdurdod yn dewis defnyddio'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy, y byddai angen trafod â Llywodraeth Cymru ynghylch

[64] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Chwefror 2014, paragraff 236

[65] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Chwefror 2014, paragraff 236

[66] Memorandwm Esboniadol, tudalen 13

[67] Memorandwm Esboniadol, tudalen 137

[68] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2020, paragraff 30

unrhyw gostau,[69] a byddai costau o ran ymgyrchoedd gwybodaeth, ymgyrchoedd cyfathrebu gyda'r etholwyr lleol, ac, yn amlwg, gweithio gyda phleidiau yn lleol.[70]

**63.** Dywedodd CLlLC y byddai angen i'r Comisiwn Etholiadol gymryd rhan ac awgrymodd fod gan y Comisiwn Etholiadol bryderon:

> "… about variation of systems and risk of confusion, because they would want a more straightforward, national information communication campaign. And, obviously, there would be significant training implications for electoral staff in that particular authority."[71]

**64.** Mae'r Comisiwn Etholiadol yn awgrymu, pe byddai etholiadau lleol yng Nghymru yn gweithredu dwy system etholiadol ar wahân, y byddai angen, o bosibl, gynhyrchu canllawiau ychwanegol a deunydd ymwybyddiaeth i'r cyhoedd. Dywedodd y Comisiwn Etholiadol nad oedd eto wedi amcangyfrif cost y gwaith hwn gan na fydd y ddarpariaeth yn dod i rym ar gyfer etholiadau 2022.[72]

## Gwella trefniadau cofrestru pleidleiswyr

**65.** Mae'r Bil yn gwneud newidiadau i'r system cofrestru etholiadol, gan ei gwneud hi'n "haws" i unigolion gael eu cynnwys ar y gofrestr etholiadol trwy rannu data yn well a mesurau eraill ac mae'n rhoi pŵer i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ychwanegu unigolion at y gofrestr heb fod angen iddyn nhw wneud cais.[73]

**66.** Mae'r Bil hefyd yn cynnwys rheoliad sy'n gwneud pŵer i sefydlu cronfa ddata Cymru gyfan o wybodaeth cofrestru etholiadol, sydd, yn ôl y Memorandwm Esboniadol, yn angenrheidiol i alluogi gorsafoedd pleidleisio symudol a phleidleisio o bell.[74]

---

[69] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2020, paragraff 31

[70] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2020, paragraff 31

[71] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2020, paragraff 31

[72] Tystiolaeth Ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid: Y Comisiwn Etholiadol

[73] Memorandwm Esboniadol, tudalen 15

[74] Memorandwm Esboniadol, tudalen 140

**67.** Dywed yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol nad yw'n "diffinio unrhyw gostau i Lywodraeth Cymru am wneud rheoliadau i sefydlu cronfa ddata Cymru Gyfan o wybodaeth cofrestru etholiadol, gan mai pŵer galluogi yn unig y byddai'r opsiwn hwn yn ei roi i Weinidogion Cymru".[75]

**68.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

> "Bydd creu cynigion ymarferol i lunio Cronfa Ddata o Wybodaeth Cofrestru Etholiadol yn waith estynedig a chymhleth, a bydd angen ei datblygu mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid eraill. Am y rheswm hwn, mae'r Bil yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, sefydlu a chynnal cronfa ddata cofrestru etholiadol."[76]

**69.** Dywedodd y Gweinidog fod cryn dipyn o bethau i'w gwneud cyn datblygu cronfa ddata Cymru gyfan, gan ychwanegu:

> "So, we don't want to run before we can walk, so we're going to do all the original changes first, so, all of the other things that the electoral registration officers want to do, while we develop the database afterwards. Then when we put the regulatory impact assessment in place for that, obviously we'll be putting the costs for that. But we haven't even started it yet, so trying to estimate the costs before you've even started is quite difficult."[77]

**70.** Yn ystod tystiolaeth i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, roedd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Lleol Cymru o'r farn, er y byddai budd mawr i gronfa ddata Cymru gyfan,[78] y byddai'n ddwys o ran adnoddau. Tynnon nhw sylw at y ffaith:

> "it would require a lot of planning, particularly around the information and communications technology element and security, because you will be holding very, very sensitive information. It would require,

[75] Memorandwm Esboniadol, tudalen 138

[76] Memorandwm Esboniadol, tudalen 17

[77] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror, paragraff 49

[78] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 9 Ionawr 2020, paragraff 391

> possibly, even a move of premises for us and building up our ICT capacity to be able to do that, and that would require quite intensive initial capital investment and then the ongoing cost of maintaining the register."[79]

**71.** Awgrymodd y Gweinidog y byddai gwaith yn y maes hwn yn dechrau ar ôl y set gyntaf o etholiadau o dan y system newydd.[80]

## Treialon Etholiadol

**72.** Mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gynnal treialon etholiadol penodol mewn etholiad llywodraeth leol. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod gan y Comisiwn Etholiadol ddyletswydd bresennol i werthuso unrhyw gynllun treialu.[81]

**73.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod y treialon yn debygol o gael eu cyflwyno yn raddol rhwng 2022 a 2027. Bydd dadansoddiad manwl o'r costau tebygol yn cael ei gynhyrchu cyn i Weinidogion Cymru wneud cyfarwyddyd sy'n ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor neu Swyddogion Cofrestru Etholiadol dreialu system amgen.[82]

**74.** Dywedodd y Comisiwn Etholiadol ei fod yn croesawu'r fenter gan Lywodraeth Cymru i ddarparu ar gyfer treialon etholiadol. Fodd bynnag, mae'n credu y dylai'r Bil gynnwys dyletswydd i'r Comisiwn Etholiadol werthuso unrhyw gynllun peilot a gynhelir mewn etholiad llywodraeth leol yng Nghymru, yn unol â'r ddyletswydd gyfatebol ar gyfer treialon mewn etholiadau lleol yn Lloegr neu'r Alban.[83]

**75.** Dywedodd y Comisiwn Etholiadol y byddai hyn yn galluogi asesiad annibynnol sy'n seiliedig ar dystiolaeth o lwyddiant neu fel arall y cynllun wrth

---

[79] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 9 Ionawr 2020, paragraff 393

[80] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 51

[81] Memorandwm Esboniadol, tudalen 21

[82] Memorandwm Esboniadol, tudalen 141

[83] Tystiolaeth Ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid: Y Comisiwn Etholiadol

hwyluso ac annog pleidleisio. Dywedodd y Comisiwn Etholiadol nad oedd wedi amcangyfrif cost y gwaith hwn eto gan na fydd y ddarpariaeth yn dod i rym ar gyfer etholiadau 2022.[84]

**76.** Pan ofynnwyd iddi a oedd unrhyw arwydd o'r math o gynlluniau peilot y gellid eu cynnal a'u costau posibl, dywedodd y Gweinidog nad oedd gwybodaeth o'r fath eto. Dywedodd y byddai'n gweithio gyda Cymdeithas Gweinyddwyr Etholiadol a Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru i greu rhaglen o dreialon ledled Cymru i brofi systemau amrywiol, yn hytrach na chaniatáu i awdurdodau unigol gynnig treialon nad ydyn nhw o reidrwydd yn ffurfio rhaglen.[85]

**77.** Fodd bynnag, ychwanegodd y Gweinidog yn ddiweddarach:

> "There might be one or two pilots around slightly different voting methods because of the young people, so I'm very keen on looking at whether we can do something around voting where they study, for example, but we're not in a position to take that forward at the moment."[86]

**78.** Esboniodd y Gweinidog fod y Bil yn cynnwys pŵer i gyfarwyddo awdurdodau lleol i gynnal cynllun peilot, oherwydd os yw'r Comisiwn Etholiadol eisiau gwneud rhywbeth, yna efallai y bydd yn rhaid i ni ei wneud ar sail ranbarthol.[87] Ychwanegodd:

> "We're not anticipating having any problem with this, and I emphasise we've never had any problem with any local authority not doing it, but we wouldn't want to be not able to conduct a regional pilot because one authority didn't want to do it. So, we are giving ourselves a power to direct them, although I don't anticipate it would ever be necessary."[88]

[84] Tystiolaeth Ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid: Y Comisiwn Etholiadol

[85] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 59

[86] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 64

[87] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 61

[88] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 61

## Treuliau Swyddogion Canlyniadau

**79.** Mae'r Bil yn egluro mai dim ond wrth gynnal etholiad llywodraeth leol yng Nghymru y gall Swyddogion Canlyniadau hawlio treuliau. Ni ellir hawlio ffioedd personol o ran gwasanaethau a roddwyd wrth gynnal etholiad llywodraeth leol gan nad ydynt yn "dreuliau". Nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ymhelaethu ar oblygiadau'r newid hwn.[89]

**80.** Wrth graffu ar Fil y Senedd, dywedodd argymhelliad 8 y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru:

> *"Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ffioedd a delir i Swyddogion Canlyniadau fel rhan o'r Uchafswm Lwfans Adenilladwy gyda'r bwriad o drafod a oes modd gwneud arbedion cost. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sydd i ddod ar gyfer y Bil Llywodraeth Leol arfaethedig."*[90]

**81.** Dywedodd y Gweinidog:

> "When you look into this, it gets more and more complex because individual authorities set different fee levels and have different schemes, and have different reclaimable expenses, and so on. So, there's no pattern across Wales. It's completely different authority to authority, so we haven't been able to say, 'This is a good scheme, this isn't a good scheme', so that's quite difficult."[91]

**82.** Aeth y Gweinidog ymlaen i amlinellu amcangyfrif o'r arbedion posibl, a hefyd pam na chynhwyswyd y rhain yn yr Asesiad Effaith Rheoliadol:

> "We think that the estimate of savings for not paying these fees is about £9,000 per authority, so just under £200,000 across Wales, but that is an estimate because it's not clear at all how every local authority does this, and some of them declare it in different ways, and

[89] Memorandwm Esboniadol, tudalen 23

[90] Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Goblygiadau Ariannol y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

[91] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 61

so on; it's quite complicated. So, we haven't included those savings as we don't think they're realisable because, actually, the different contracts work in different ways and different claiming systems, and so on. We want to work with the local authorities and the Welsh Local Government Association to work up a scheme that's national for Wales, but we're not in a position to do that at the moment."[92]

## Barn y Pwyllgor

**83.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod rhai costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o ran pleidleisio, etholiadau a chodi ymwybyddiaeth yn gyfartaledd ar draws prif gynghorau ac nad ydynt yn ystyried gwahaniaethau rhwng ardaloedd awdurdodau lleol. Er bod y Pwyllgor yn nodi barn y Gweinidog y bydd rhai costau yr un peth i bob awdurdod lleol, megis newid y systemau cofrestru etholiadol, mae costau eraill yn debygol o fod yn drymach mewn ardaloedd penodol.

**84.** Bydd deall y costau i wahanol brif gynghorau wrth weithredu newidiadau sy'n ymwneud â phleidleisio, etholiadau a chodi ymwybyddiaeth yn hanfodol ar gyfer dyraniad teg unrhyw gyllid y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu a byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad ynghylch pa fformiwla a ddefnyddir i benderfynu sut y mae'r cyllid hwn yn cael ei ddyrannu.

**85.** Cred y Pwyllgor y bydd amrywiad mewn costau rhwng awdurdodau lleol ac mae'n nodi bwriad y Gweinidog i weithio gydag awdurdodau lleol i nodi niferoedd yr etholwyr a'u lleoliad. Fodd bynnag, byddai'r Pwyllgor wedi disgwyl i'r gwaith hwn fod wedi'i wneud wrth baratoi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

**86.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r darpariaethau yn y Bil sydd â'r nod o hyrwyddo delfrydau democratiaeth a chyfranogiad y cyhoedd ledled Cymru yn rhagweithiol ac mae'n croesawu'r £800,000 a ddyrannwyd gan y Gweinidog i gynorthwyo pleidleiswyr newydd a phresennol i ddeall eu hawliau democrataidd ac i ymgysylltu â'r prosesau democrataidd. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r darpariaethau i hyrwyddo mynediad at lywodraeth leol, ond, mae hefyd yn nodi'r lefel bosibl o adnoddau sydd eu hangen i roi'r newidiadau hyn ar waith.

---

[92] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 67

**87.** Mae'r Pwyllgor yn siomedig nad yw Llywodraeth Cymru wedi darparu unrhyw asesiad cost i awdurdodau lleol a allai benderfynu defnyddio'r system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy. Er efallai na fydd awdurdodau lleol yn newid eu system bleidleisio, mae'n rhesymol i ddisgwyl i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol gynnwys awgrym o'r adnoddau y gallai fod eu hangen pe byddai newid yn cael ei weithredu a maint posibl y costau dan sylw.

**88.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu, os oes dwy system bleidleisio etholiadol ar wahân ar waith ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru, y gallai hyn arwain at ddryswch i'r etholwyr. Mae'r Pwyllgor yn credu y bydd angen cyfarwyddyd ychwanegol ac ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus i leddfu risgiau os bydd newid yn y system bleidleisio. Dylai hyn fod wedi cael ei nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

**89.** Mae'r Pwyllgor yn siomedig nad yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn diffinio unrhyw gostau ar gyfer gwneud rheoliadau i sefydlu cronfa ddata Cymru gyfan o wybodaeth cofrestru etholiadol. Mae'r Pwyllgor yn nodi bwriad y Gweinidog y bydd y wybodaeth ariannol yn cael ei dwyn ymlaen yn rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r rheoliadau perthnasol. Felly mae'r Pwyllgor yn disgwyl y bydd gan y rheoliadau Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn ac wedi'i gostio'n briodol ac mae'n disgwyl cael eu hysbysu pan fydd y wybodaeth hon ar gael.

**90.** Nid yw'r Pwyllgor yn glir ynghylch pa dreialon etholiadol y gellir eu cynnal a byddai'n gwerthfawrogi eglurhad gan y Gweinidog ar y pwynt hwn. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gallai Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer os ydyn nhw am gynnal treialon rhanbarthol ac roedd un awdurdod nad oedd eisiau cymryd rhan ond mae'n nodi nad oedd y Gweinidog yn rhagweld y byddai'n rhaid defnyddio'r pŵer. Byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe byddai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi darparu mwy o gyd-destun o ran sut y byddai'r pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio a goblygiadau ei ddefnydd.

**91.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r eglurhad yn y Bil y gall Swyddogion Canlyniadau hawlio treuliau a ysgwyddwyd yn briodol wrth gynnal etholiad llywodraeth leol yng Nghymru yn unig ac na ellir hawlio ffioedd personol o ran gwasanaethau a roddwyd wrth gynnal etholiad llywodraeth leol gan nad yw'r rhain yn "dreuliau".

**92.** Nododd y Gweinidog bod posibilrwydd o arbedion am beidio â thalu'r ffioedd hyn o oddeutu £9,000 fesul awdurdod neu £200,000 ledled Cymru. Fodd bynnag, awgrymodd nad oedd yr arbedion yn ddigon dibynadwy i'w cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Er bod y Pwyllgor yn derbyn y gallai fod yn gamarweiniol cynnwys gwybodaeth mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol sydd â chryn ansicrwydd, mae'r Pwyllgor yn disgwyl gweld gwybodaeth wedi'i chynnwys a allai gefnogi craffu a dealltwriaeth o raddfa'r newid. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i weithio gyda'r CLlLC ac awdurdodau lleol yn y dyfodol ar gynllun cenedlaethol ac yn gofyn am ddiweddariad ar hyn pan fydd ar gael.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith i nodi dosbarthiad yr etholwyr ledled Cymru ac yn egluro'r dull y mae'n bwriadu ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw gyllid a ddyrannir i gefnogi'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud ag etholiadau a phleidleisio.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i archwilio'r costau sy'n gysylltiedig ag awdurdod lleol sy'n penderfynu defnyddio'r system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy ac yn cynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol mewn Asesiad Effaith Rheoleiddio diwygiedig.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith i nodi'r costau sy'n gysylltiedig â sefydlu cronfa ddata Cymru gyfan o wybodaeth cofrestru etholiadol ac yn darparu cymaint o wybodaeth â phosibl mewn Asesiad Effaith Rheoleiddio diwygiedig.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ddarparu Asesiad Effaith Rheoleiddio llawn a chadarn i gyd-fynd â'r is-ddeddfwriaeth berthnasol sy'n ofynnol er mwyn gweithredu cronfa ddata Cymru gyfan o wybodaeth cofrestru etholiadol.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am y mathau o gynlluniau y gallai fod am eu treialu a'r adnoddau posibl sy'n ofynnol ar gyfer gweithgaredd o'r fath.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o arbedion tebygol darpariaethau sy'n

gysylltiedig â threuliau Swyddogion Canlyniadau ac yn cynnwys unrhyw fanylion perthnasol mewn Asesiad Effaith Rheoleiddio diwygiedig.

# 4. Hyrwyddo Mynediad at Lywodraeth Leol

## Ei gwneud yn ofynnol i brif awdurdodau wneud cynllun deisebau a diddymu Pleidleisiau Cymunedol

**93.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod y system bresennol sy'n defnyddio pleidleisiau cymunedol yn "ddrud ac yn gyfyngol", gan nodi bod pleidleisiau diweddar ar Ysbyty Cymunedol y Fflint a Llyfrgell Rhiwbeina wedi costio £3,000 a £5,000 yn y drefn honno. Nododd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol bod y nifer a bleidleisiodd mewn pleidleisiau cymunedol wedi amrywio o 9 y cant i 37 y cant.[93]

**94.** Mae'r Bil yn dirymu Deddf Llywodraeth Leol 1972 sy'n ymwneud â phleidleisiau cymunedol ac yn cyflwyno'r gofyniad i brif gynghorau sefydlu cynllun deisebau yn ei le.[94]

**95.** Bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gynhyrchu canllawiau i gefnogi prif gynghorau wrth baratoi cynlluniau, ar gost trosglwyddo o £9,000.[95]

**96.** Bydd prif gynghorau yn ysgwyddo costau o ran paratoi, rheoli ac adolygu eu cynllun. Amcangyfrifir y bydd costau cynhyrchu'r cynllun cychwynnol (yn 2022-23) ar draws pob un o'r 22 prif gyngor yn £67,000.[96]

**97.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi, ar hyn o bryd, bod prif gynghorau'n derbyn rhwng tair ac 17 deiseb y flwyddyn, mae'n defnyddio ffigur o 11 deiseb y flwyddyn ac amser swyddogion i reoli a monitro gwefan y deisebau a choladu deisebau (un awr y dydd ac awr ychwanegol yr wythnos) i gyrraedd cost o £176,000, y flwyddyn (o 2022-23), ar gyfer pob un o'r 22 prif gyngor.[97]

**98.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn tybio y bydd mwyafrif y prif gynghorau'n sefydlu system e-ddeisebau. Mae'n nodi bod y mwyafrif o brif

[93] Memorandwm Esboniadol, tudalen 168

[94] Memorandwm Esboniadol, tudalen 162

[95] Memorandwm Esboniadol, tudalen 163

[96] Memorandwm Esboniadol, tudalen 162

[97] Memorandwm Esboniadol, tudalen 162

gynghorau ar hyn o bryd yn gweithredu system reoli electronig ar gyfer deisebau (gyda 21 yn defnyddio yr un darparwr a gellir gweithredu rhaglen e-ddeiseb heb unrhyw gost ychwanegol drwy'r pecyn hwn). Amcangyfrifir y bydd sefydlu system unigol yn costio £12,500 i ddechrau a £4,000 y flwyddyn am ei chynnal ar gyfer pob prif gyngor (neu gost drosiannol o £275,000 a chost barhaus o £88,000 y flwyddyn ar gyfer pob un o'r 22 prif gyngor).[98]

**99.** Dywedodd CLlLC ei fod yn gefnogol ar y cyfan i'r dull o ddefnyddio deisebau gan nodi bod nifer o gynghorau eisoes yn eu derbyn a bod y broses yn gyfarwydd, yn enwedig i'r cyhoedd.[99]

**100.** Dywedodd y Gweinidog y byddai'r rhan fwyaf o'r gost yn mynd at sefydlu a chynnal cynllun deisebau electronig a bod y gost yr un fath faint bynnag o ddeisebau sydd gennych chi.[100]

**101.** Dywedodd y Gweinidog:

> "…we've put a managing and monitoring scheme in place, which is just under £8,000 per annum per council, which is based on 11 petitions a year per council."

**102.** Dywedodd CLlLC fod pleidleisiau cymunedol yn feichus ac yn gostus i awdurdodau. Nodwyd ganddynt fod y broses ddeisebau yn ddull llawer mwy cost-effeithiol ac addas i'r cyhoedd o gael barn y cyhoedd ar fater penodol mewn ardal awdurdod.[101]

**103.** Cytunodd y Gweinidog nad yw pleidleisiau cymunedol yn effeithiol a'u bod yn ddrud iawn[102]

**104.** Pan ofynnwyd iddi pam na chynhwyswyd arbedion yn sgil cael gwared ar bleidleisiau cymunedol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, esboniodd y Gweinidog:

---

[98] Memorandwm Esboniadol, tudalen 165

[99] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2020, paragraff 87

[100] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 100

[101] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2020, paragraff 88

[102] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 103

> "…at the moment, community polls are very rare. Almost nobody's used them—less than once a year. So, actual costs are pretty low; potential costs are pretty high. So, the authority has to hold the potential to have a community poll, but the actual expenditure is pretty low. So, it's really difficult. We have tried really hard to think about it, but, again, it is pretty difficult to do that. It's got to be a best educated guesstimate, because we don't have any actual figures….
>
> What we're hoping is to have a system that generates much more engagement, but is actually much more certain for the authority in terms of what it might cost and what they might expect."[103]

**105.** Amlygodd CLlLC y gallai symud i gynllun deisebau mwy cynhwysol, yn enwedig deisebau electronig, gynyddu'r galw, ond, gallai hyn gael ei reoli drwy'r meini prawf penodol ynghylch pa fathau o faterion y gellir eu hystyried trwy ddeisebau. Cydnabu CLlLC nad ydyn nhw yn gwybod eto faint o waith ychwanegol fyddai yna.[104]

## Darllediadau electronig o gyfarfodydd

**106.** Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i bob prif gyngor wneud trefniadau i ddarlledu eu cyfarfodydd (gan gynnwys cyfarfodydd pwyllgorau ac is-bwyllgorau) a sicrhau bod y darllediadau hynny ar gael am gyfnod "rhesymol" ar ôl y cyfarfod.[105]

**107.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod 18 allan o 22 o brif gynghorau naill ai'n darlledu'n rheolaidd neu wedi darlledu cyfarfodydd yn y gorffennol.[106]

**108.** Yn 2012-13, roedd grant o £40,000 ar gael i gefnogi prif gynghorau i ddarlledu cyfarfodydd cyngor ac i alluogi presenoldeb o bell yng nghyfarfodydd y cyngor.[107]

---

[103] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraffau 105-106

[104] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2020, paragraff 90

[105] Memorandwm Esboniadol, tudalen 180

[106] Memorandwm Esboniadol, tudalen 179

[107] Memorandwm Esboniadol, tudalen 180

**109.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod trafodaethau a gynhaliwyd gyda phrif gynghorau, y cwmni sy'n darparu'r gwasanaeth darlledu a CLlLC wedi nodi y byddai un contract darlledu ar gyfer Cymru yn arwain at gostau i brif gyngor am becyn darlledu cyfartalog o ryw £12,000 y flwyddyn.[108]

**110.** Mae CLlLC yn awgrymu bod y costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn debygol o fod yn amcangyfrif rhy isel. Cwestiynodd CLlLC a yw datblygu contract Cymru gyfan yn ymarferol, ond nodwyd hefyd ei bod yn anodd darparu amcangyfrif cywir.[109]

**111.** Nodwyd gan CLlLC fod awdurdodau lleol yn cychwyn o wahanol fannau cychwyn. Dywedwyd y gallai fod gwariant cyfalaf cychwynnol i rai awdurdodau lleol yn ogystal â chostau gweinyddol cylchol megis staff sy'n monitro'r darllediad, y ffrwd, sicrhau ei fod yn dal i gael ei ddarlledu'n fyw heb unrhyw broblemau technegol, a phobl i reoli'r camerâu.[110]

**112.** Manylodd CLlLC:

> "…the RIA assumes that there would be an all-Wales contract let and there would be savings as a result of that, which may potentially be the case in the future, but feedback from authorities suggests—. I think the RIA says that the cost is around £12,000 extra per authority; the feedback we're having from authorities at the moment is that it's averaging at around £24,000 in addition. It really depends on what authorities currently do. Some have very extensive and expensive systems that are all-singing and all-dancing, very similar to Senedd.tv, where members of the public can tune in and click on particular items on the agenda and particular speakers, while others have a lower cost option that is essentially YouTube, but it's just one long three-hour or four-hour meeting, so it's not particularly intuitive for members of the public. So it really depends on where authorities are at currently."[111]

[108] Memorandwm Esboniadol, tudalen 181

[109] Y Pwyllgor Cyllid: Papur 2 Tystiolaeth ysgrifenedig gan CLlLC

[110] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2020, paragraff 92

[111] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2020, paragraff 92

**113.** Dywedodd y Gweinidog y byddai'n gweithio gydag awdurdodau lleol i ystyried ai cael contract darlledu ledled Cymru oedd y ffordd fwyaf cost-effeithiol o symud ymlaen.[112]

**114.** Mae'r Gweinidog hefyd wedi bod yn trafod gyda CLlLC yr hyn a olygir gan ddarlledu pob cyfarfod, gan ychwanegu:

> "What we do want to be sure is that the principal council meetings, the principal cabinet meetings and the ones where the big decisions are made are definitely broadcast all the time, with good broadcasting material that can be accessed by people."

**115.** Awgrymodd y Gweinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn paratoi canllawiau ar y mater hwn,[113] gan ychwanegu:

> "… we will have a set of guidance around proportionate and practical ways of ensuring that as many meetings as possible go ahead, but that the validity of the meeting is not affected by the failure of broadcasting equipment."[114]

## Barn y Pwyllgor

**116.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cynigion ynghylch gweithredu system o ddeisebau ar draws awdurdodau lleol, yn enwedig gan ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd sy'n awgrymu bod pleidleisiau cymunedol yn feichus ac yn gostus. Mae'r Pwyllgor yn credu bod system ddeisebau yn ffordd fwy effeithiol ac effeithlon i'r cyhoedd ymgysylltu â'r broses ddemocrataidd. Fodd bynnag, byddai'r Pwyllgor wedi hoffi i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol fod wedi archwilio yn fwy manwl arbedion tebygol yn sgil dileu pleidleisiau cymunedol ac ystyried a allai'r rhain gael eu gosod yn erbyn unrhyw gostau a fydd yn deillio o'r system ddeisebau newydd.

**117.** Mae'r Pwyllgor yn nodi y byddai costau cychwynnol i awdurdodau lleol sefydlu cynllun e-ddeisebau, gyda chost barhaus am reoli'r cynllun a monitro'r

---

[112] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 112

[113] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 108

[114] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 111

deisebau a dderbynnir wedi hynny. Mae'r Pwyllgor yn pryderu am farn y Gweinidog, sef pan fydd system e-ddeiseb ar waith nad oes ots faint o ddeisebau sydd gennych, mae'r gost yr un fath. Mae'r Pwyllgor o'r farn y gallai costau fel amser staff amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar nifer y deisebau a dderbynnir.

**118.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod yr 11 deiseb y flwyddyn a amcangyfrifwyd gan yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn gymharol isel. Er ein bod yn derbyn ei bod yn anodd asesu'n gywir nifer y deisebau a gyflwynir, gallai fod wedi bod yn fwy priodol cynnwys ystod o gostau i ddangos ansicrwydd yn y dadansoddiad. Mae'n syndod hefyd bod lefel hanesyddol o ddeisebau wedi'u defnyddio i fesur y ffigur hwn gan mai diben y ddeddfwriaeth yw cynyddu cyfranogiad.

**119.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i ddarlledu eu cyfarfodydd er budd tryloywder wrth wneud penderfyniadau. Mae'r Pwyllgor yn falch o glywed bod y Gweinidog yn bwriadu bod ag agwedd ymarferol tuag at y canllawiau ynghylch darlledu ac mae'n bwriadu sicrhau nad yw methiant yr offer darlledu yn effeithio ar ddilysrwydd cyfarfod. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen i Lywodraeth Cymru ystyried gweithredu'r gofyniad hwn yn llawn, gan gynnwys ystyr 'pob cyfarfod'. Bydd angen paratoi canllawiau cyn gynted â phosibl a bod yn glir ynghylch disgwyliadau Llywodraeth Cymru i ganiatáu digon o rybudd i awdurdodau lleol wneud trefniadau effeithiol sy'n cydymffurfio.

**120.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bwriad y Gweinidog i weithio gydag awdurdodau lleol i ystyried ai contract darlledu Cymru gyfan yw'r ateb mwyaf cost-effeithiol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu bod CLlLC wedi cwestiynu ymarferoldeb contract Cymru gyfan a bod yr agwedd hon ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn debygol o fod yn amcangyfrif rhy isel. Cred y Pwyllgor y dylai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol fod wedi archwilio'r costau sy'n gysylltiedig ag awdurdodau lleol yn caffael contractau darlledu unigol i roi darlun llawn o'r costau posibl.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio ymhellach yr arbedion tebygol o ddileu pleidleisiau cymunedol ac a yw'n rhesymol gosod unrhyw gostau system ddeisebau newydd yn erbyn y rhain. Dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

**Argymhelliad 9.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn paratoi dadansoddiad sensitifrwydd o’r effaith y gall nifer y deisebau ei chael ar amser staff a chost monitro ac adolygu’r deisebau a dderbynnir. Dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

**Argymhelliad 10.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â rhagor o waith gyda rhanddeiliaid i ystyried a yw contract darlledu Cymru gyfan yn ymarferol ac ai hwn fyddai’r ateb mwyaf cost-effeithiol, gan gynnwys costau posibl i awdurdodau lleol gaffael contractau darlledu unigol.

**Argymhelliad 11.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei chanllawiau (neu hyd yn oed canllawiau drafft) ar ddarlledu cyfarfodydd, gan gynnwys lle efallai na fyddai’n briodol darlledu, cyn gynted â phosibl.

# 5. Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol

## Disodli'r pŵer llesiant â phŵer cymhwysedd cyffredinol

**121.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi nad yw rôl llywodraeth leol wedi'i phennu mewn unrhyw ddarn unigol o ddeddfwriaeth, ond yn hytrach mae'n cael ei ddiffinio gan y pwerau a'r dyletswyddau ("swyddogaethau") a roddir iddi dros amser. Mae swyddogaethau llywodraeth leol wedi'u gosod a'u cyfyngu gan ddeddfwriaeth. Byddai gweithredu y tu allan i'r pwerau hyn yn cael ei ystyried yn "ultra vires" (anghyfreithlon).[115]

**122.** Fe wnaeth Adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000[116] gyflwyno pwerau llesiant, a oedd yn galluogi awdurdodau lleol i weithredu mewn ffordd y maent yn ystyried a fyddai'n gwella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol eu hardal neu bobl yn eu hardal. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod "canfyddiad bod y pŵer llesiant yn rhy gyfyngedig". Mae'r Bil yn cyflwyno pŵer cymhwysedd cyffredinol i ganiatáu:[117]

> "…i awdurdodau lleol cymwys weithredu er budd eu cymunedau, cynhyrchu arbedion effeithlonrwydd a sicrhau gwerth am arian. Hefyd bydd modd codi arian drwy godi am wasanaethau dewisol a masnachu yn unol â phwerau presennol."[118]

**123.** Ar ben hynny, bydd y pŵer cyffredinol yn caniatáu i awdurdodau lleol cymwys gymryd rhan mewn gweithgareddau y gellid dweud eu bod y tu allan i'r pŵer llesiant o fewn Deddf 2000. Ystyrir y bydd y pŵer cyffredinol yn caniatáu i awdurdodau lleol cymwys fod yn fwy arloesol, gan symud oddi wrth sefyllfa lle mae angen pennu pŵer penodol er mwyn ymgymryd â gweithgaredd penodol i sefyllfa lle rhagdybir bod modd iddynt wneud rhywbeth oni bai bod cyfyngiad statudol yn atal hynny".[119]

---

[115] Memorandwm Esboniadol, tudalennau 23-24

[116] Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000

[117] Memorandwm Esboniadol, tudalen 25

[118] Memorandwm Esboniadol, tudalen 25

[119] Memorandwm Esboniadol, tudalen 25

**124.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ond yn darparu costau trosiannol o £10,000 a fydd yn cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru wrth baratoi rheoliadau i roi effaith lawn i'r darpariaethau i "alluogi awdurdodau cymwys i sefydlu cwmni i wneud pethau at ddiben masnachol".[120]

**125.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau nad oedd hi'n disgwyl i gynghorau ddefnyddio'r pŵer i wneud mentrau masnachol peryglus gyda'r bwriad o gael llif refeniw.[121] Cadarnhaodd ei bwriad i wneud rheoliadau a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol baratoi a chymeradwyo achos busnes, sy'n cynnwys:

> "the investment and the resources required, the risks associated with delivering it and the expected financial outcome. It interacts with the prudential code for borrowing as well, so we'll make sure that the guidance for the prudential code also reflects that."[122]

**126.** Yn ddiweddar, diweddarodd Llywodraeth Cymru ei chanllawiau i awdurdodau lleol ynghylch buddsoddiadau[123]. Mae'r canllaw yn cyfeirio at bwerau buddsoddi sydd gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd o dan adran 12 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003[124].

**127.** Awgrymodd CLlLC ei bod bron yn amhosibl meintioli unrhyw gost/budd sy'n gysylltiedig â phŵer cymhwysedd cyffredinol, ond mae hefyd yn awgrymu'r posibilrwydd y gallai arwain at wario llai o adnoddau cyfreithiol ar ystyried a yw gweithred yn "vires".[125]

**128.** Dywedodd CLlLC y bu enghreifftiau da a drwg o'r defnydd o bŵer cymhwysedd cyffredinol mewn rhannau eraill o'r DU. Roedd CLlLC yn pryderu

---

[120] Memorandwm Esboniadol, tudalen 151

[121] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 27 Tachwedd 2019, paragraff 123

[122] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 74

[123] Buddsoddiadau llywodraeth leol: canllawiau, 18 Tachwedd 2019

[124] Deddf Llywodraeth Leol 2003

[125] Y Pwyllgor Cyllid: Papur 2 Tystiolaeth ysgrifenedig gan CLlLC

am y pwerau economaidd i waethygu rhaniadau economaidd-gymdeithasol rhwng ardaloedd cynghorau[126]. I ehangu ar y pwynt hwn:

> "My council area or your council area, for example, has less capacity to generate income than, perhaps, some other more affluent authorities in Wales, and that needs to be recognised, not because it's a bad thing that other councils can raise more money, but because there needs to be, like with business rates, some form of equalisation there."[127]

**129.** Amlygodd CLlLC y bu rhai astudiaethau achos masnachol risg uchel ac uchel eu proffil yn Lloegr. Fodd bynnag, roedd hefyd yn cydnabod buddion ei ddefnydd:

> "…there are good and logical financial examples of things that councils across the border can do that we can't that have necessitated councils getting the private sector in to manage developments and therefore take some of the profit out of them that could have been kept within councils, had the general power of competence been available."[128]

## Barn y Pwyllgor

**130.** Mae'r Pwyllgor yn derbyn ei bod yn anodd mesur sut ac i ba raddau y bydd pŵer cymhwysedd cyffredinol yn newid y ffordd y bydd awdurdodau cymwys yn gweithio ac yn nodi bwriad y Gweinidog i gyflwyno rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cymwys baratoi achos busnes cyn defnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol. Byddai'r Pwyllgor wedi disgwyl i hyn gael ei gostio yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac mae'n awgrymu bod y Gweinidog yn darparu gwybodaeth bellach ynghylch cwmpas y rheoliadau hyn a sut y byddai hyn yn wahanol i'r prosesau cyfredol mewn awdurdodau cymwys.

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion goblygiadau cost unrhyw reoliadau sy'n ei gwneud yn

[126] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2020, paragraff 74
[127] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2020, paragraff 74
[128] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2020, paragraff 81

ofynnol i awdurdodau cymwys baratoi achos busnes cyn defnyddio pŵer cymhwysedd cyffredinol.

# 6. Pwyllgorau a pherfformiad

## Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu

**131.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi mai prin iawn y caiff Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu, a alluogwyd gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011[129], eu defnyddio mewn gwasanaethau a rennir neu ar y cyd. Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu'r amgylchiadau pan fydd yn rhaid sefydlu Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu.[130] Nododd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

> "Pe bai Gweinidogion Cymru yn dewis arfer y pŵer hwn, byddai'r gost o wneud hynny yn dibynnu ar faint a chwmpas y rheoliadau sy'n cael eu gwneud, sy'n anhysbys ar hyn o bryd. Mae'r gost felly'n anhysbys."[131]

**132.** Nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys costau i lywodraeth leol ac mae'n awgrymu y byddai unrhyw gostau yn cael eu gwrthbwyso gan gostau presennol craffu ar wasanaeth ar y cyd gan ddau neu ragor o gynghorau ar wahân.[132]

**133.** Dywedodd y Gweinidog fod y pŵer i wneud rheoliadau sy'n pennu'r amgylchiadau pan fydd yn rhaid sefydlu cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu yn "bŵer os metha popeth arall" ac na fyddai byth yn disgwyl ei ddefnyddio.[133]

**134.** Dywedodd y Gweinidog ei bod hi eisiau i awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i'r hyn sy'n fwyaf addas iddyn nhw ond nad oedd hi'n disgwyl i awdurdodau gael cyfarfodydd ailadroddus diddiwedd oherwydd eu bod i gyd eisiau cael pwyllgor craffu ym mhob cyngor unigol, yn ogystal ag un trosolwg ar y cyd.[134] Ychwanegodd:

[129] Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

[130] Memorandwm Esboniadol, tudalen 215

[131] Memorandwm Esboniadol, tudalen 215

[132] Memorandwm Esboniadol, tudalen 215

[133] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 118

[134] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 115

> "… for some things, a joint overview and scrutiny committee for the whole of a regional transport strategy will be an appropriate thing to do, but in other cases each individual authority might need to scrutinise particular aspects of a regional plan because they impact separately on that council than—. In the Cardiff city deal area, you can well imagine that some things will impact Cardiff itself in a different way than they might Blaenau Gwent, for example.
>
> So, what we'll do is we'll agree with the councils what the overview and scrutiny arrangements look like, and then we'll have a monitoring regime in place to make sure that that scrutiny is effective and works, and then, we'll work with the councils to rearrange that if necessary."[135]

**135.** Er bod y Gweinidog wedi awgrymu y byddai'r pwerau ond yn cael eu defnyddio pan fo popeth arall yn methu, nododd:

> "… one of the reasons that we're insisting on regional arrangements with some things is because we do think that local authorities, although they could have come together to do regional working, they haven't."[136]

**136.** Fodd bynnag, roedd CLlLC yn teimlo bod gormod o fanylion ynghylch y ddyletswydd i sefydlu cyd-bwyllgorau a dywedon nhw:

> "We feel that would be best left to local discretion, and if authorities want to scrutinise a joint service jointly, then fine; if they want to scrutinise it individually to ensure that that authority or that community is getting the benefits, then fine. There's not a huge cost implication, but on a point of principle we don't think that should be in the Bill."[137]

[135] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraffau 115-116

[136] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 121

[137] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2020, paragraff 83

## Cynlluniau Hyfforddi Cynghorau Cymuned

**137.** Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned ystyried a mynd i'r afael â gofynion hyfforddi aelodau a staff. Mae hyn yn cynnwys paratoi a chyhoeddi cynllun hyfforddi, ond nid oes rhaid ymgymryd â hyfforddiant.[138]

**138.** Byddai cynghorau cymuned yn parhau i dalu costau hyfforddi eu hunain, ond mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod gan Lywodraeth Cymru gynlluniau bwrsariaeth ar waith ar gyfer aelodau a chlercod.[139]

**139.** Byddai gan gynghorau cymuned gostau i ystyried anghenion hyfforddi er mwyn llunio'r cynllun hyfforddiant. Mae'r asesiad effaith rheoleiddiol yn nodi ei bod yn "anodd amcangyfrif pa mor hir y byddai'n ei gymryd i glerc baratoi cynllun hyfforddiant oherwydd mae amryw o ffactorau a allai effeithio ar hyn".[140]

**140.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn defnyddio maint cyngor cymunedol (yn seiliedig ar amcangyfrif o boblogaeth ei ardal ddinesig) i amcangyfrif yr amser fydd ei hangen. Amcangyfrifir mai cost gychwynnol yr ymarfer fydd £135,000, yn amrywio o £30 i bob cyngor cymuned gyda phoblogaeth o dan 250 i £500 i bob cyngor cymunedol gyda phoblogaeth dros 10,000.[141]

**141.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif y bydd diweddaru ac adolygu'r cynllun yn flynyddol yn costio 20 y cant o'r gost wreiddiol (cyfanswm o £27,000 ledled Cymru).[142]

**142.** Nid yw'r asesiad effaith rheoleiddiol yn adlewyrchu cost ymgymryd â'r hyfforddiant "gan nad yw hynny yn dod o fewn (y) cwmpas", mae'n mynd ymlaen i ddweud:

---

[138] Memorandwm Esboniadol, tudalennau 217-218

[139] Memorandwm Esboniadol, tudalen 218

[140] Memorandwm Esboniadol, tudalen 218

[141] Memorandwm Esboniadol, tudalen 219

[142] Memorandwm Esboniadol, tudalen 221

> "Fodd bynnag, ceir disgwyliad yr ymgymerir â hyfforddiant lle caiff cynllun ei lunio, gan gynnwys mewn rhai meysydd craidd penodol fel ymsefydlu sylfaenol, cod ymddygiad, cyllid a chynllunio."[143]

**143.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog beth fyddai'r goblygiadau adnoddau tebygol i gynghorau cymuned o ganlyniad i gynnal hyfforddiant ychwanegol. Dywedodd y Gweinidog, gan fod 735 o gynghorau cymunedol yng Nghymru, yn amrywio o gynghorau cymunedol bach yn goruchwylio adnodd lleol bach, i gynghorau cymuned mwy gyda miliynau o bunnoedd o gyllideb, ei bod yn amhosibl dod o hyd i gynllun "un ateb i bawb".[144]

**144.** Dywedodd y Gweinidog y dylai cynghorau cymuned fod yn gyfrifol am dalu am eu costau hyfforddi eu hunain.[145] Fodd bynnag, cadarnhaodd:

> "in order to support the start-up for this, we're going to put about £0.5 million into the start-up process, but I don't expect that to be recurring. This is just to help them get started. And all councils, once they identify an ongoing training need, should be budgeting for that training need inside their budgets."[146]

**145.** Ychwanegodd y Gweinidog nad oes cost i beth o'r hyfforddiant beth bynnag gan fod y Llywodraeth eisoes yn ariannu CLlLC neu Un Llais Cymru i wneud yr hyfforddiant hwnnw. Aeth ymlaen i ddweud:

> "...I'm saying there are not any additional, ongoing costs for community councils. They should be training now. All we're doing is asking them to put a training plan in place. We do expect that will lead to more training, but they should be budgeting for that."[147]

[143] Memorandwm Esboniadol, tudalen 219
[144] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 128
[145] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 132
[146] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 132
[147] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 144

## Perfformiad a llywodraethu prif gynghorau

**146.** Mae'r trefniadau gwella cyfredol yn cael eu hysgogi trwy Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Mesur 2009)[148]. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i bob prif gyngor adolygu'i berfformiad, ac yn eu tynnu o'r drefn wella bresennol yn Rhan 1 Mesur 2009.[149]

**147.** Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol barhau i adolygu i ba raddau y mae'n bodloni'r "gofynion o ran perfformiad". Mae'n cynnwys system ffurfiol o hunanasesiadau ac asesiadau panel. [150]

**148.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn awgrymu na fyddai'r cynigion ynghylch hunanasesiadau yn arwain at unrhyw gostau newydd i brif gynghorau.[151] Gan fod prif gynghorau yn gallu cynnal adolygiadau panel ar wahanol adegau, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif mai'r gost flynyddol ar gyfartaledd yw £116,000.[152] Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn wynebu £26,000 o gostau o ran canllawiau.[153]

**149.** Mae'r asesiad effaith rheoleiddiol yn nodi "Ni chredir y bydd y gofyn i adolygu perfformiad yn golygu unrhyw gostau newydd arwyddocaol i brif gynghorau. Y cyfan y mae'n ei wneud yw ffurfioli rhywbeth a ddylai eisoes fod yn digwydd".[154]

**150.** Cadarnhaodd y Gweinidog fod y Bil yn nodi o leiaf un asesiad adolygiad cymheiriaid cyflawn ar gyfer pob prif gyngor ym mhob cylch etholiadol. Dywedodd ei bod yn ymwybodol drwy'r CLILC bod trefniadau hunanasesu ac asesiadau panel yn arfer cyffredin i fwyafrif y cynghorau ledled Cymru eisoes, ond nid oedd yn gyson.[155]

---

[148] Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

[149] Memorandwm Esboniadol, tudalennau 232-233

[150] Memorandwm Esboniadol, tudalen 233

[151] Memorandwm Esboniadol, tudalen 234

[152] Memorandwm Esboniadol, tudalen 237

[153] Memorandwm Esboniadol, tudalen 236

[154] Memorandwm Esboniadol, tudalen 236

[155] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 159

**151.** Nododd CLlLC nad oedd Mesur 2009 yn cael ei ystyried i fod yn addas bellach.[156] Aeth CLlLC ymlaen i ddweud bod pob awdurdod a phob sefydliad yn hunanasesu eu perfformiad a'u cyfeiriad teithio, ble maen nhw'n mynd, beth maen nhw'n ei wneud yn dda, beth y mae angen iddyn nhw ei wella a beth y mae angen iddyn nhw ei flaenoriaethu.[157] Fodd bynnag, cwestiynodd CLlLC a fydd asesiadau panel yn ychwanegu gwerth ac a ddylent fod yn orfodol neu'n wirfoddol[158].

**152.** Dywedodd y Gweinidog fod y dull yn symud i ffwrdd o'r hen ddull archwilio a chydymffurfiaeth a oedd wedi'i ysgogi gan dargedau a ddaeth o Fesur 2009, nad yw wedi cael bron dim effaith o gwbl.[159] Ychwanegodd:

> "This is a completely different focus on meaningful assessment of whether a council as a whole needs to be looking beyond the basic requirements of its functions and duties and become self-improving and innovative on the basis of a peer review. So, a panel will be set up, including external experts and so on, drawn from the new improvement and support function that we're also putting back into the WLGA, and that panel might include people who are specifically asked to serve because of particular issues in a particular area, and then that panel will assist the council to do its review and its peer assessment and report back."[160]

## Barn y Pwyllgor

**153.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r darpariaethau ynghylch cyd-bwyllgorau craffu a bydd yn awyddus i weld sut y defnyddir y pŵer hwn ac os gwneir hynny. Er bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn awgrymu y byddai unrhyw gostau yn cael eu gwrthbwyso gan gostau craffu ar hyn o bryd ar wasanaeth ar y cyd gan ddau neu ragor o gynghorau, byddai'r Pwyllgor yn gobeithio gweld effeithlonrwydd gan

[156] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2020, paragraff 132
[157] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2020, paragraff 133
[158] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2020, paragraff 135
[159] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 159
[160] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 160

gyd-bwyllgorau craffu, ond mae'n cydnabod na ddylai hyn fod yr unig sail ar gyfer sefydlu pwyllgorau o'r fath.

**154.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi asesu'r effaith ariannol ar gynghorau cymuned a chynghorau tref o ran yr angen iddynt baratoi cynllun hyfforddi. Cred y Pwyllgor ei bod yn hanfodol bod Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn asesu effaith deddfwriaeth ar Lywodraeth Cymru a chyrff eraill.

**155.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r farn ei fod y tu allan i'w cwmpas i adlewyrchu'r gost i gynghorau cymunedol a thref sy'n ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol o ganlyniad i'r gofyniad i gynhyrchu cynllun hyfforddi. Mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn debygol iawn y bydd cynnydd yn yr hyfforddiant a ddilynir. Byddai hyn felly yn arwain at gostau ychwanegol, a ddylai fod wedi'u harchwilio yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

**156.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu am farn y Gweinidog nad oes unrhyw gost yn gysylltiedig â pheth hyfforddiant. Hyd yn oed os yw'r hyfforddiant yn cael ei ariannu'n llawn, bydd cost i unigolion sy'n mynychu cyrsiau hyfforddi, yn hytrach na chyflawni eu swyddi arferol.

**157.** Mae'r Pwyllgor yn nodi tystiolaeth CLlLC nad yw darpariaeth Mesur 2009 ynghylch trefniadau llywodraethu yn cael ei hystyried yn eang nac yn addas at y diben mwyach ac mae'n nodi gwybodaeth yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n awgrymu bod newidiadau yn codeiddio'r hyn y dylai pob cyngor fod yn ei wneud eisoes. Nododd y Gweinidog fod tystiolaeth ynghylch hunan asesiadau ac asesiadau panel yn awgrymu eu bod yn cael eu cynnal yn gyffredinol gan gynghorau ledled Cymru ond nad oeddent yn cael eu cynnal yn gyson. Ar y sail honno bydd y newidiadau i'r trefniadau llywodraethu yn cael effaith wahanol ar wahanol brif gynghorau. Cred y Pwyllgor y dylai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol fod wedi darparu mwy o ddadansoddiad o'r hyn y mae cynghorau eisoes yn ei wneud i roi maint y newid hwn yn ei gyd-destun.

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ailasesu'r costau sy'n gysylltiedig â chynlluniau hyfforddi Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref, gan gynnwys yr hyfforddiant ychwanegol y gellir ei ddilyn o ganlyniad i'r cynlluniau hynny, ac yn sicrhau bod y goblygiadau ariannol wedi'u nodi mewn Asesiad Effaith Rheoleiddio diwygiedig.

**Argymhelliad 14.** . Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddeall pa mor sylweddol fydd y newid yn y trefniadau perfformiad i brif awdurdodau unigol.

# 7. Cydweithio

## Uno gwirfoddol

**158.** Mae'r Bil yn gwneud darpariaethau ar gyfer uno prif gynghorau yn wirfoddol drwy reoleiddio. Roedd cyfyngiad amser ar y pwerau yn Neddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015[161] a oedd yn caniatáu ar gyfer uno gwirfoddol ac ni ellir eu defnyddio mwyach.[162]

**159.** Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau ynghylch y trefniadau trosiannol ar gyfer uno, gan gynnwys ynghylch: cynghorau cysgodol, etholiadau, pwyllgorau trosglwyddo a chyfyngiadau ar drafodion a recriwtio ac ati trwy uno cynghorau. Nodir yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

> "Byddai'r cyfle i brif gynghorau uno'n wirfoddol yn rhoi ateb posibl ychwanegol i lywodraeth leol o fewn pecyn o opsiynau i fynd i'r afael â'r heriau cyllidol sy'n parhau a darparu gwasanaethau cynaliadwy."[163]

**160.** Heb y Bil hwn gallai uno ond ddigwydd pe bai Bil penodol yn cael ei ddwyn ymlaen ar gyfer yr uno dan sylw "gweithdrefn llawer hwy a mwy costus".[164]

**161.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi nad yw wedi darparu costau uno gwirfoddol gan fod hwn yn bŵer galluogi. Byddai costau i Lywodraeth Cymru "yn dibynnu ar raddfa a chwmpas unrhyw gais". O ran llywodraeth leol dywed yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol "nid oes modd darogan a oes unrhyw geisiadau uno yn debygol o gael eu cyflwyno", ac felly nid oes unrhyw gostau wedi'u cynnwys.[165]

**162.** Mae CLlLC wedi dweud yn y gorffennol fod llawer o waith wedi'i wneud i ystyried costau a buddion uno[166] a'i fod yn hynod gymhleth[167], gan ychwanegu:

---

[161] Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015

[162] Memorandwm Esboniadol, tudalen 40

[163] Memorandwm Esboniadol, tudalen 246

[164] Memorandwm Esboniadol, tudalen 246

[165] Memorandwm Esboniadol, tudalen 247

[166] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2020, paragraff 141

[167] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2020, paragraff 143

> "we commissioned the Chartered Institute of Public Finance and Accountancy to do it and the Welsh Government had done their own work based on work that was commissioned, I think, from KPMG. It was finger-in-the-air stuff, to be perfectly honest. We did it on an all-Wales basis. Some of the work that I saw individually—. Our work was based on local authorities. It depended where the mergers were actually going to take place, where those pairings happen. The costs and benefits could vary quite widely, depending on how harmonised, let's say, certain things were. If your council tax was quite harmonised, then it wasn't going to be a problem. I think it was the south-east that there was a problem: Caerphilly, Newport and the Blaenau Gwent area— . These are the types of things that have to be quantified when the pairings actually happen."[168]

## Cyd-bwyllgorau Corfforaethol

**163.** Mae'r Bil yn caniatáu sefydlu cyd-bwyllgorau corfforaethol fel rhan o fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer cydweithredu rhanbarthol. Mae hyn yn sefydlu'r pwyllgorau hynny fel "cyrff corfforaethol" sy'n caniatáu iddynt gael swyddogaethau wedi'u breinio ynddynt, cyflogi staff yn uniongyrchol, dal asedau a rheoli cyllid.[169]

**164.** Gellir sefydlu'r pwyllgorau hyn trwy reoliad naill ai ar gymhelliad dau neu fwy o awdurdodau lleol neu ar gymhelliad Gweinidogion Cymru.[170]

**165.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod yna, ar hyn o bryd, feysydd sylweddol o weithio ar y cyd a chydweithio ond nad oes unrhyw gysondeb o ran dull.[171]

**166.** Y meysydd lle bydd Gweinidogion Cymru yn gallu cychwyn sefydlu cyd-bwyllgor corfforaethol bydd trafnidiaeth, datblygu economaidd, cynllunio

[168] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2020, paragraff 143

[169] Memorandwm Esboniadol, tudalen 36

[170] Memorandwm Esboniadol, tudalen 36

[171] Memorandwm Esboniadol, tudalen 224

strategol ar gyfer datblygu a defnyddio tir, a gwella addysg.[172] Nododd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

> "Bydd cost gwneud rheoliadau sy'n sefydlu cyd-bwyllgorau corfforaethol felly yn dibynnu ar faint a chwmpas (nifer y prif gynghorau a swyddogaethau) unrhyw gydbwyllgor(au) corfforaethol dan sylw. Ni ellir dweud ar hyn o bryd beth fyddai'r gost gan fod nifer y prif gynghorau a chwmpas swyddogaethau yn dal i fod yn destun trafod â llywodraeth leol."[173]

**167.** Nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn darparu amcangyfrifon o'r costau i Weinidogion Cymru sy'n gwneud rheoliadau sefydlu cyd-bwyllgorau corfforaethol yn dilyn cais gan awdurdodau lleol gan ei fod yn "amhosibl rhagweld a fydd ceisiadau sy'n gofyn i Weinidogion Cymru greu cyd-bwyllgor corfforaethol yn debygol o ddod i law".[174]

**168.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn awgrymu y byddai'r mecanwaith cyd-bwyllgor corfforaethol arfaethedig yn "symleiddio'r trefniadau cydweithio presennol; gan drwy hynny roi'r eglurder a'r cysondeb sydd eu hangen arnynt a lleihau'r cymhlethdod ac osgoi dyblygu ymdrech ac arweiniad".[175]

**169.** Hefyd, nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn darparu costau nac arwydd o ble y gallai costau godi, pe bai dau brif gyngor neu fwy yn gofyn am ffurfio cyd-bwyllgor.[176] Nododd yr Asesiad:

> "Bydd gofyn i unrhyw gynnig ystyried y ddadl economaidd ac effeithiolrwydd dros ddefnyddio mecanwaith y cyd-bwyllgor corfforaethol ar gyfer cydweithio a bydd yn dibynnu ar amgylchiadau unigol y cynghorau perthnasol ar y pryd."[177]

[172] Memorandwm Esboniadol, tudalen 37

[173] Memorandwm Esboniadol, tudalen 226

[174] Memorandwm Esboniadol, tudalen 226

[175] Memorandwm Esboniadol, tudalen 229

[176] Memorandwm Esboniadol, tudalen 227

[177] Memorandwm Esboniadol, tudalen 227

**170.** O ran trefniadaeth cyd-bwyllgorau corfforaethol, amlinellodd y Gweinidog:

> "Byddwn yn cychwyn y trefniadau trafnidiaeth a chynllunio strategol ar unwaith oherwydd bod eu hangen yn fawr ac rydym mewn sefyllfa i fwrw ymlaen â hynny. Byddwn yn cychwyn y ddau drefniant gorfodol arall cyn gynted â phosib, ar ôl i ni ddatrys ein hunain gyda gwahanol reoliadau a rhestrau o bethau sy'n cael eu cynnwys ac nad ydyn nhw wedi'u cynnwys."[178]

**171.** Nododd y Gweinidog hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn yn ffurfiol i CLlLC gynnig pa awdurdodau lleol oedd yn dymuno datblygu cyd-bwyllgorau corfforaethol ac mae'n aros am ymateb.[179]

**172.** Yn gyffredinol, roedd CLlLC yn cefnogi'r cynnig ar gyfer cyd-bwyllgorau corfforaethol fel cyfrwng ar gyfer cydweithredu a nodwyd ganddynt fod budd o geisio safoni'r system honno.[180]

**173.** Fodd bynnag, roedd CLlLC yn pryderu y byddai Lywodraeth Cymru yn mynnu bod awdurdodau'n mabwysiadu dull penodol, ac yn hytrach y dylai esblygu'n organig.[181] Ychwanegodd:

> "The Minister has suggested that strategic planning and transport would come in first, and there are potentially two different models that the Welsh Government might impose on authorities….
>
> I think there's general support for the adoption of corporate joint committees on a voluntary basis as another model for joint working, whether it's a joint committee, a joint company, a partnership or a

---

[178] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2019, paragraff 227

[179] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2020, paragraff 306

[180] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2019, paragraff 114

[181] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2019, paragraff 116

lead-authority model, but there is still some discussion around mandation."[182]

**174.** Dywedodd CLlLC nad oedd unrhyw drafodaeth wedi bod ynghylch goblygiadau cost sefydlu a chynnal pwyllgorau o'r fath oherwydd, yn y bôn, byddent yn disodli modelau presennol.[183] Aethon nhw ymlaen i ddweud:

> "Depending on how integrated systems are as a result of those joint committees—so, for joint committees, obviously you would need some administration, and there's certainly an impact on members' time in participating in a range of different meetings—. If, as a result of joint committees, there was a joint service, for example, across the six north Wales authorities for a transport service across north Wales, there may be transition costs in terms of moving staff in and recruiting, and so on. But until the shape and scope of those models exist, we don't have the full details."[184]

**175.** Nododd y Gweinidog:

> "…So, all the way through this Bill, we've worked in conjunction with the WLGA and its various committees and through the partnership council and regional sub-group to co-produce all of the guidance and the regulations that go with it. We're still agreeing the scope of the core functions. So, although we've put broad headlines—transport, strategic planning. I mean, transport is everything from closing a road for a street party to designing a monorail system for north-south transport. So, we're still agreeing what the core functions are underneath the big headlines. And we're working in partnership with local government and the WLGA to define those core functions, which will then be transferred automatically into the corporate joint committees."[185]

[182] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2019, paragraff 116
[183] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2019, paragraff 118
[184] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2019, paragraff 118
[185] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 149

**176.** Ychwanegodd y Gweinidog y byddai'r costau'n dibynnu ar gwmpas a graddfa'r cyd-bwyllgorau corfforaethol. Aeth ymlaen i ddweud:

> "So, these are existing functions already carried out by local authorities that will simply be transferred to a regional arrangement to be carried out. So, they are not duplicates, so we are not expecting an increase in cost. We do expect there to be start-up costs of one sort or another, but we don't expect that to be on any ongoing basis. Indeed, although this is—I emphasise—not in any way a finance-saving expedition, we would expect the costs to go down over time, as more things are done regionally, rather than in each individual local authority. But, at the moment, until we know the full scope of the function to be transferred and what the co-produced guidance and rights look like, it's very hard to put a cost on that."[186]

**177.** Cadarnhaodd y Gweinidog y bydd gan bob cyd-bwyllgor corfforaethol set o reoliadau sy'n ei sefydlu, a bydd asesiad effaith reoliadol yn cyd-fynd ag ef, yn rhoi manylion y costau. Dywedodd:

> "So, the costs at that point will be known, because we will know what the regulations say, we will know what the functions are that are being transferred, and we will know what the initial set-up looks like for that. I do not anticipate that the costs will encompass anything other than the initial set-up of the transferring of that function, but until we know exactly what that is, we can't say."[187]

**178.** Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi comisiynu adolygiad sy'n dod i ben ym mis Chwefror 2020, ar gostau a buddion sefydlu cyd-bwyllgorau corfforaethol rhanbarthol.

## Barn y Pwyllgor

**179.** Mae'r Pwyllgor yn nodi ei bod yn anodd meintioli costau uno gwirfoddol ac mae'n cydnabod bod llawer o newidynnau'n gysylltiedig ag uno gwirfoddol a

[186] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 150

[187] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 150

fyddai'n effeithio ar y costau. Fodd bynnag, mae gwaith ar gostau a buddion uno wedi'i wneud yn flaenorol ar Fil Drafft Llywodraeth Leol (Cymru) ac mae costau ar gael o achosion blaenorol o uno Llywodraeth Leol yn 1996[188] y gellid bod wedi'u defnyddio. Byddai'r Pwyllgor yn disgwyl gweld gwybodaeth ynghylch a yw'r costau hyn yn dal i fod yn berthnasol (mewn unrhyw ffordd) yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

**180.** Gan y bydd y ddarpariaeth ar gyfer uno prif gynghorau yn wirfoddol yn cael ei wneud drwy is-ddeddfwriaeth, byddai'r Pwyllgor yn disgwyl i Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn a chadarn gyd-fynd â'r rheoliadau.

**181.** Mae'r Pwyllgor yn nodi cefnogaeth gyffredinol CLILC i'r cynnig ar gyfer cyd-bwyllgorau corfforaethol fel cyfrwng ar gyfer cydweithredu, ond mae hefyd yn nodi ei bryder y gallai Llywodraeth Cymru bennu dull penodol.

**182.** Mae'r Pwyllgor yn credu y gallai fod costau cychwynnol posibl i sefydlu cyd-bwyllgorau corfforaethol ac mae hefyd yn cydnabod y gallai fod arbedion dros amser. Mae'r Pwyllgor yn siomedig na chomisiynodd Llywodraeth Cymru ei dadansoddiad o'r elfen hon o'r Bil yn gynharach, fel y gallai fod wedi'i hymgorffori yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'i bod ar gael i lywio craffu. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd yr ymarfer hwn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ymgorffori unrhyw ddiweddariadau perthnasol mewn fersiwn o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn y dyfodol.

**183.** Mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd gan bob cyd-bwyllgor corfforaethol set o reoliadau i'w sefydlu. Fel yr amlygwyd o'r blaen yn yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor yn disgwyl i asesiad effaith rheoleiddiol manwl a chadarn gyd-fynd â'r rheoliadau sy'n codi o'r Bil. Fodd bynnag, er bod y Pwyllgor yn derbyn y gallai fod angen rheoliadau i sefydlu cyd-bwyllgorau corfforaethol yn y dyfodol, awgrymodd tystiolaeth gan y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o rai Pwyllgorau yr oedd am eu sefydlu "ar unwaith". Felly nid yw'r Pwyllgor yn gweld unrhyw reswm pam na ddarparwyd dadansoddiad mwy sylweddol, yn y meysydd hyn o leiaf, ar adeg cyflwyno'r Bil.

[188] Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994

**184.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y canllawiau ar gyfer cyd-bwyllgorau corfforaethol yn cael eu cyd-gynhyrchu gydag awdurdodau lleol a bod y swyddogaethau craidd i'w cytuno o hyd. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth pan fydd ar gael.

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, pe bai Gweinidogion Cymru'n defnyddio'r pŵer galluogi i ysgogi uno gwirfoddol, y dylid cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddio llawn a chadarn i gyd-fynd ag unrhyw is-ddeddfwriaeth.

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhannu ei ddadansoddiad o gostau a buddion sefydlu cyd-bwyllgorau corfforaethol pan fydd ei hadolygiad yn dod i ben. Os yw'n berthnasol, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid cyfrif am y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddio diwygiedig.

**Argymhelliad 17.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Asesiad Effaith Rheoleiddio llawn a chadarn yn cyd-fynd â rheoliadau sy'n cael eu gwneud i sefydlu cyd-bwyllgorau corfforaethol.

# 8. Cyllid Llywodraeth Leol

## Mynd i'r afael ag osgoi talu ardrethi annomestig

**185.** Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau sydd â'r nod o leihau cyfleoedd ar gyfer ymddygiad osgoi sy'n ymwneud ag ardrethi annomestig ac mae'n rhoi pwerau i awdurdodau bilio ofyn am wybodaeth gan drethdalwyr a thrydydd partïon ac i archwilio eiddo. Mae hefyd yn sefydlu darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i drethdalwyr hysbysu'r awdurdod bilio am newidiadau mewn amgylchiadau a allai effeithio ar rwymedigaeth ardrethi. Mae'r Bil yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru nodi natur y ddyletswydd hon yn fwy manwl mewn rheoliadau.[189]

**186.** Mae ymchwil Llywodraeth Cymru yn awgrymu bod rhwng 1-2 y cant o refeniw ardrethi annomestig (rhyw £10m- £20m) yn cael ei golli bob blwyddyn oherwydd gweithgarwch twyll ac osgoi talu.[190]

**187.** Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo costau wrth wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bobl hysbysu awdurdod bilio am newid mewn amgylchiadau a fyddai'n effeithio ar eu rhwymedigaeth ardrethi. Amcangyfrifir y bydd hyn yn costio £13,000 o amser staff ac yn cael ei wneud yn 2020-21.[191]

**188.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif "os bydd awdurdodau bilio'n dewis defnyddio eu pwerau newydd", byddent yn ysgwyddo £12,000 mewn costau fesul awdurdod bilio bob blwyddyn (neu £257,000 i'r holl awdurdodau bilio bob blwyddyn). Mae hyn yn seiliedig ar gynnydd o 25 y cant (uchafswm) yn llwyth gwaith swyddog awdurdod bilio sy'n gweithio yn ei adrannau refeniw a budd-daliadau.[192]

**189.** Croesawodd CLlLC gynigion yr ardrethi annomestig yn y Bil gan gredu y byddant yn helpu i fynd i'r afael ag osgoi, ond awgrymon nhw y gallai fod

[189] Memorandwm Esboniadol, tudalennau 256-257

[190] Memorandwm Esboniadol, tudalen 255

[191] Memorandwm Esboniadol, tudalen 257

[192] Memorandwm Esboniadol, tudalen 257

problemau yn ymwneud ag enillion cyfranddaliadau incwm ardrethi busnes a gynhyrchir gan ddull gwell ynghylch gweithgaredd osgoi.[193]

**190.** Dywedodd CLlLC y byddai, yn fras, digon o adnoddau i fynd i'r afael ag osgoi.[194]

**191.** Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru, yng nghamau cynnar y datblygiad polisi, wedi casglu data â llaw a oedd yn amcangyfrif bod oddeutu £10 i £20 miliwn yn cael ei golli oherwydd osgoi ardrethi bob blwyddyn. Dywedodd:

> "We want to repeat the exercise now that the new practices are established and then, once we've done that, we'll have a better estimate of whether the new practices have made any real impact on that.
>
> ….The Bill provisions form part of a wider package of measures to tackle avoidance, and then we've got to do a whole series of secondary legislation to go with the enabling provisions, which will be implemented in April 2020. So, we'll need to do another exercise before we can say what the impact will be."[195]

## Barn y Pwyllgor

**192.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r darpariaethau i geisio lleihau'r swm o ardrethi annomestig a gollir oherwydd gweithgarwch twyll ac osgoi ac mae'n gobeithio y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar faint y cyfraddau a gesglir.

**193.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bwriad y Gweinidog i ailadrodd yr ymarfer i amcangyfrif y refeniw ardrethi annomestig a gollir bob blwyddyn pan fydd y darpariaethau newydd sydd â'r nod o leihau cyfleoedd ar gyfer ymddygiad osgoi mewn grym. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariad pan fydd canlyniad yr ymarfer hwn wedi'i gwblhau.

---

[193] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2019, paragraff 156

[194] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2019, paragraff 157

[195] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraffau 164-165

**Argymhelliad 18.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad ar yr adolygiad o refeniw ardrethi annomestig sy'n cael ei golli bob blwyddyn, pan fydd y darpariaethau newydd, sydd â'r nod o leihau cyfleoedd ar gyfer ymddygiad osgoi, mewn grym.

# 9. Adolygiad ar ôl gweithredu

**194.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid ledled Cymru i fonitro a gwerthuso effaith diwygio etholiadol. Parhaodd:

> "Byddwn yn nodi a fydd y cynnig i ymestyn yr etholfraint yn arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n pleidleisio mewn gwirionedd. Mae'n bwysig hefyd ein bod yn cefnogi cynghorau i gyflawni eu nodau o weld cynnydd yn nifer ac amrywiaeth yr unigolion sy'n sefyll mewn etholiadau i brif gynghorau."[196]

**195.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y bydd llwyddiant y cynigion i ymestyn yr etholfraint yn cael ei fesur yn nhermau nifer yr unigolion sydd wedi'u hetholfreinio o'r newydd. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd Cymru, y ganolfan ymchwil gwyddorau cymdeithasol rhyngddisgyblaethol a'i Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol ei hun i bennu'r cyfuniad cywir o ffactorau gwerthuso wrth symud ymlaen.[197]

**196.** O ran y pŵer cymhwysedd cyffredinol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithio'n agos gyda llywodraeth leol a rhanddeiliaid i nodi lle y mae pwerau neu hyblygrwydd ychwanegol wedi bod o gymorth. Bydd arolwg hefyd o nifer y cynghorau cymuned sy'n datgan eu bod yn gymwys yn yr etholiad llywodraeth leol nesaf. Bydd y nifer sy'n derbyn hyfforddiant yn cael ei fonitro a bydd Cymdeithas Clercod y Cyngor Lleol yn adrodd ar gynnydd ar nifer y clercod cymwys i'r Grŵp Cynghori ar Hyfforddiant Cenedlaethol.[198]

**197.** Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn monitro cynlluniau hyfforddi cynghorau cymuned trwy samplu 10 y cant o wefannau cynghorau cymuned ar hap.[199]

---

[196] Memorandwm Esboniadol, tudalen 294

[197] Memorandwm Esboniadol, tudalen 294

[198] Memorandwm Esboniadol, tudalen 294

[199] Memorandwm Esboniadol, tudalen 294

**198.** O ran hunanasesiadau a pherfformiad panel, bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu adroddiadau i sicrhau bod darpariaethau yn cael eu gweithredu. Asesir costau a buddion unrhyw gyd-bwyllgorau corfforaethol yn rhan o baratoi'r rheoliad sy'n sefydlu pob pwyllgor. Ar gyfer uno gwirfoddol, dywed Llywodraeth Cymru y bydd yn gweithio gyda phrif gynghorau ar ei chanllawiau ac y bydd costau a buddion yn cael eu monitro fesul achos.[200]

**199.** Aiff yr adolygiad ôl-weithredu ymlaen i ddweud y bydd rhanddeiliaid yn parhau i gymryd rhan yn ystod y cam adolygu ôl-weithredu", ac yn nodi y bydd y pwerau ychwanegol, eu costau a'u buddion yn cael eu hasesu yn erbyn y llinell sylfaen yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a fydd yn cael ei fonitro gan swyddogion Llywodraeth Cymru.[201]

**200.** Dywedodd y Gweinidog ei bod yn cynllunio i ddefnyddio adnoddau presennol yn yr adran llywodraeth leol a'r adnodd cyfredol sydd ar gael i'r cyllidebau ymchwil yn Llywodraeth Cymru i gynnal yr adolygiad ôl-weithredu. Dywedodd fod gan Lywodraeth Cymru raglen ymchwil dreigl a'i bwriad yw y bydd yr adolygiad ôl-weithredu yn rhan o'r rhaglen honno.[202]

## Barn y Pwyllgor

**201.** Mae'r Pwyllgor yn falch bod adolygiad ôl-weithredu wedi'i gynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac mae'n ystyried bod y fethodoleg wedi amlinellu dull rhesymol o fonitro canlyniadau'r ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu bod yr adolygiad yn cynnwys gweithgareddau y bydd angen adnoddau arnynt ond eto nid yw'n ymddangos eu bod yn cael eu costio yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Er bod y Gweinidog wedi awgrymu y byddai'r adnoddau presennol yn cael eu defnyddio, mae cost cyfle o hyd i gyflawni'r tasgau newydd hyn.

**202.** Mae'r Pwyllgor wedi tynnu sylw ar sawl achlysur bod cynnwys adolygiad ôl-weithredu cadarn yn arfer da ac yn helpu i sicrhau bod amcanion deddfwriaeth yn cael eu cyflawni yn unol â'r disgwyliadau a bod gwerth am arian wedi'i

[200] Memorandwm Esboniadol, tudalen 294

[201] Memorandwm Esboniadol, tudalen 295

[202] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 6 Chwefror 2020, paragraff 167

gyflawni. Fodd bynnag, mae angen costio adolygiadau ôl-weithredu yn iawn, hyd yn oed os yw'r gweithgareddau'n cael eu hystyried yn gost cyfle.

**Argymhelliad 19.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn dadansoddi ei strategaeth adolygu ôl-weithredu, gan roi ystyriaeth i adnoddau'r gweithgareddau y mae'n bwriadu eu cynnal ac yn cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddio diwygiedig.

# Atodiad A - Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| **29 Ionawr 2020** | **Y Cynghorydd Anthony Hunt, Llefarydd Cyllid ac Adnoddau**<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>**Jon Rae, Cyfarwyddwr Adnoddau**<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>**Daniel Hurford, Pennaeth Polisi**<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| **6 Chwefror 2020** | **Julie James AC, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Lisa James, Dirprwy Gyfarwyddwr, Democratiaeth Llywodraeth Leol**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Claire Germain, Dirprwy Gyfarwyddwr, Trawsnewid a Phartneriaethau**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Cath Wyatt, Rheolwr Biliau Llywodraeth Leol ac Etholiadau**<br>Llywodraeth Cymru |